# Yr Ysgub

Rhif 443

Mehefin 2020

80c

Papur Bro Dyffrynnoedd Ceiriog, Tanat, Cain ac Efyrnwy a Thref Croesoswallt




Carys yn dathlu ar ôl ennill yn Eisteddfod T (llun Phil Blagg)

## DYFEISGARWCH YN ENNILL Y DYDD A LLE AR Y SGRIN

**Yn y dyddiau o chwith yma, lle mae natur yn adfywio a'r economi'n marw, plant yn dyheu am ysgol a thraethau heulog yn wag o bobl, dyma luniau o rai a lwyddodd yn yr amgylchiadau od yma: Carys yn fuddugol am lefaru yn ei chegin, Bois Penybont ar Heno am sgorio gôl ddifyr efo papur toiled a Sian Llywelyn, awdures a fu ar Heno a neb wedi darllen ei llyfr (eto).**




*Sian yn dangos ei nofel newydd Drychwll ar Heno*




*Steffan, Caio a Tomos yn dathlu wedi eu hymddangosiad ar Gôl-ona ar Heno (Llun Mam)*

# PENYBONTFAWR

## Carys Jones


**Croeso i'r pentref a Llongyfarchiadau**

Braf ydi croeasawu cwpwl ifanc i'r pentref ers rhai misoedd bellach, sef Wyn Jones, Llangynog a Sian Davies, Llanwddyn i Ddolafon. Yn ogystal, ar ddechrau'r cyfnod clo, mor braf oedd clywed newyddion hapus,sef bod bachgen bach, Staffan Lewis Jones, wedi cyrraedd hefyd! Felly llongyfarchiadau i'r teulu bach.

**Priodas ar ddiwrnod 'Buddigoliaeth yn Ewrop'**

Mae'n siŵr fod Dydd Mawrth Mai 8fed, 1945 yn ddiwrnod hapus a bythgofiadwy i bawb yn y wlad. Wedi blynyddoedd trist yr ail ryfel byd roedd y diwedd ar y gorwel. Tybed pa bryd y cyrhaeddodd y newyddion fod diwrnod o wyliau a dathliadau mawr i fod ar y diwrnod hwn?

Er hyn i gyd yr oedd pentrefwyr Penybontfawr yn paratoi dathliad arbennig y diwrnod hwnnw, sef priodas.


Capel "Bethania" (A.)
Penybontfawr.

Gwasanaeth Priodas

Osmond Williams
Nancy Evans

Mai 8fed, 1945.

Roedd Miss Nancy Evans, Peniarth Uchaf, chwaer Ritchie a Spuriel (arweinydd cyntaf Côr Meibion Penybontfawr) yn priodi Mr.Samuel Osmond Williams, Cilmawr, Llangedwyn yng Nghapel Bethania. Y gwas priodas oedd ei frawd Ted o Fronheulog, Llansilin. (Canodd Osmond, Ted a Tom ei brawd arall, sef Parti Fronheulog mewn Plygeiniau yn yr ardal am flynyddoedd. Ac fe glywir eu carol 'Ar gyfer heddiw bore' yn cael ei chanu ar Radio Cymru bron bob Nadolig). Y forwyn briodas oedd Miss Bessie Roberts, Henstent, Llangynog, cyfnither y briodferch. Cafwyd y neithior yn Minafon, cartref Dodo Minafon sef modryb i Nancy. Roedd y wledd wedi ei pharatoi trwy garedigrwydd Mr.a Mrs Joe Astley (rhieni Mr.Glyn Astley) y' Relwe'. Mae'n siŵr fod y teulu a'r ffrindiau wedi bod yn casglu eu dognau bwyd prin yn ofalus am wythnosau. Symud o Cilmawr i Beniarth Isaf fu'r hanes yn 1971 gyda'u plant Lynda a Peter. Bu farw Nancy yn 1985 ac Osmond yn 1993.


*Tu allan Minafon, Penybontfawr ar ôl y briodas.*



Dyma'r llun a dderbyniodd glod a sylw ar y rhaglen *Heno*. Llun a dynnwyd gan Meinir Lewis Jones ydy o dan y thema 'Gwanwyn'.

Da iawn wir!

# PONTFADOG

## Bethan Jones

Babi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd a Natalie Roberts, Bryn Bedw, Dolywern, ar enedigaeth mab sef Morgan Daniel Roberts. Mae'n siŵr bod Alaw yn falch iawn o'i brawd bach newydd. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Siop Pontfadog**

Mae Phil a Mandy Connor wedi derbyn nifer o roddion ariannol gan gwsmeriaid mewn gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth y maent wedi bod yn ei roi. Maent yn defnyddio'r arian i anfon 'treats' i'r rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd yn lleol, e.e. te, coffi a bisgedi i'r Feddygfa yn Waun a Llangollen, Ysbytai'r Waun a'r Orthopaedig a'r Nyrsus Cymunedol. Mae'n braf bod cymaint o bobol eisiau dangos eu gwerthfawrogiad.

# Palasau Hwyl – Y Newyddion Diweddaraf

I ddechrau, diolch yn fawr i'r Ysgub am gynnwys stori 'Baneri Bach Cymunedol Penybontfawr' yn y rhifyn diwethaf, gyda llun llawn-lliw ar y clawr! Arweiniodd hynny at ymholiad gan Cwmni Da sy'n cynhyrchu rhaglen Heno ar S4C. Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld yr eitem ar nos Fawrth Mai 26ain, neu wedi hynny ar S4C CLIC? Roedd yn braf iawn cael cyfle i rannu hanes ein dathliad o gymuned yn genedlaethol!
Mae wedi bod yn hyfryd clywed fod y byntin wedi bod yn ysbrydoliaeth i eraill, gan gynnwys cymuned Cemmaes a wnaeth un i siop y pentref, dwy o ysgolion sy'n rhedeg hybiau i blant gweithwyr allweddol, a staff a phreswylwyr cartref i oedolion sydd ag anghenion arbennig. Os ydych yn gwybod am rai eraill, hyd yn oed os mai yn eich cartref eich hun plîs gadewch imi wybod! Os hoffech chi greu bynting yn eich tŷ, lle gwaith neu yn eich cymuned mae croeso i chi gysylltu â mi am gopi o'r daflen gyfarwyddiadau. Mae gen i hefyd dempled gallwch chi ei defnyddio er mwyn rhannu'r syniad hefo'ch cymuned ac mae'n cynnwys triongl o faint addas. Mae fy manylion cyswllt ar waelod yr eitem yma – byddai'n hyfryd i glywed gennych!




Mae tîm rheoli Palasau Hwyl yn Llundain wastad yn f'atgoffa i ymgysylltu mewn ffyrdd sy'n cynnwys pobl sydd heb gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Mae'r papurau bro yn un o'r ffyrdd gorau imi fedru gwneud hyn - yn sicr maen nhw'n cyrraedd mannau lle nad yw Facebook, Twitter a'r lleill yn cyrraedd!! Mae'n ffordd o rannu storïau ac i deimlo cysylltiad hefo'n cymuned. Wrth ystyried hyn, meddyliais y byddai'n braf i rannu profiadau o'r gymuned ynglŷn ag ymdopi hefo hunan ynysiad ac aros mewn cysylltiad hefo eraill. Dwi'n ddiolchgar iawn i Mr Emrys Griffith o Benybontfawr am dderbyn y gwahoddiad i wneud hyn. Mae o'n fodlon imi sôn ei fod yn 94 oed, a fel y gwelwch o'r llun ddiweddar yma mae o'n edrych yn arbennig o dda! Mae Mr Griffiths yn adnabyddus i lawer ohonom fel cyn-bennaeth ar Ysgol Pennant. Dwi'n siŵr y gwnewch chi fwynhau darllen ei eitem. Hwyl tan y tro nesaf!
Bethan Page (Penybontfawr) Llysgennad Palasau Hwyl, gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
bethan.page@nationaltrust.org.uk

07779 566 403

Mae llawer o bobl wedi bod yn defnyddio'u hamser i fod yn greadigol a dysgu sgiliau newydd. Dyma hanes Joe Page ac Elin Fflur Lloyd-Jones. Oes gennoch chi rywbeth yr hoffech chi ddangos? Gwaith gwau? Adeiladu? Crefft?

Cysylltwch â ni er mwyn i ni eu harddangos mis nesaf.

**Beic 'Fficsi' gan Joe Page**

Cyn dod adre o Gaerdydd lle rydw i'n astudio am radd mewn Dylunio Cynnyrch / Product Design, prynais i feic ail-law, a dois i â fo adre hefo fi. Mae'r Brifysgol wedi cau a dwi'n gwneud fy ngwaith o adref.
Roedd y beic yn un rasio 'vintage' falle o'r '70au, a'r steil yn apelio ata i. Roeddwn i eisiau prosiect i nghadw i'n brysur yn fy amser hamdden, i nghadw i'n brysur yn ystod hunan-ynysiad ac i roi ychydig o her imi.
Tynnais y beic yn ddarnau, gan brynu darnau newydd lle roedd rhaid, a glanhau, paentio a thrwsio'r darnau eraill. Dwi wedi cadw steil 'vintage' y beic ond wedi ei addasu fel ei fod yn 'fficsi', sef beic hefo dim ond un gêr – mae hyn yn reit ffasiynol ar y funud ac y math o feic sy'n cael ei ddefnyddio mewn felodrom. Mae o'n gwneud beicio yn Nyffryn Tanat yn waith caled ond bydd yn iawn pan fyddai'n dychwelyd i dir gwastad Caerdydd – pryd bynnag fydd hynny!





Mae Elin Fflur Lloyd-Jones wedi bod yn dysgu sut i ddefnyddio peiriant gwnïo fel sgil newydd a dyma luniau ohoni yn brysur yn mesur ac yn creu masgiau mewn ymateb i her 'Big Community Sew' ar Twitter a doedd hi erioed wedi defnyddio peiriant gwnïo o'r blaen. Mae'r masgiau yn edrych yn grêt!



# 2020 – Am flwyddyn!

Y mis diwethaf cawsom y fraint o glywed am brofiadau rhai o drigolion y fro a'u hymateb i'r cyfnod rhyfedd ac ofnadwy hwn. Roedd rhai yn gweithio, rhai'n methu gweithio, rhai'n brysur iawn ac eraill yn chwilio am rywbeth i'w wneud; ond pawb yn ymdopi'n rhyfeddol. Y mis yma mae mwy o bobl wedi cytuno i gyfrannu a sôn am eu profiadau nhw. Diolch o galon i chi i gyd.

## PROFIAD EMRYS GRIFFITHS

(94 oed) Penybontfawr

Cawsom ni ym Mhenybontfawr a'r cylch gyfle yn ddiweddar i ddangos ein gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth anhygoel sy'n cael ei gynnig gan ein siop leol yn Eirianfa gan Delyth, y perchennog, a Sonia. Mae bwydydd o bob math ar gael, diodydd, ffrwythau, llysiau, llaeth a bara a llawer mwy. Cardiau ar gyfer pob achlysur, papurau dyddiol, cylchgronau a swyddfa'r post. Mae'r gwasanaeth ar gael drwy'r flwyddyn wrth gwrs, ond y mae'n rhywbeth na ellir rhoi pris arno yn y dyddiau anodd hyn. Ein diolch cywiraf i'r ddwy.

A minnau bellach yn byw ar ben fy hun, y mae amryw yn holi sut rydw i yn ymdopi yn y sefyllfa bresennol. Yn sicr, y mae wedi bod yn newid mawr i bawb ohonom, a hynny wedi digwydd mwy neu lai dros nos. Rwy'n gallu paratoi bwyd yn eithaf da ac y mae bwydydd wedi eu rhewi yn hwylus iawn. Mae ffrindiau a chymdogion yn hynod o dda. Daw Delyth, drws nesaf ar papur newydd i mi bob dydd, ac unrhyw beth ar arall fel bo'r galw. Mae'r plant, Gareth, sy'n byw yn Rhuthun, a Haf sydd yn y Drenewydd, yn arbennig o dda yn cadw golwg ar bethau, ac yn galw efo ychydig o nwyddau bob hyn a hyn.



*Llun David John Roberts*

Hyd yma, nid wyf yn gweld yr amser yn llusgo o gwbl - rwy'n hoff o ddarllen, ac rwyf wedi bod yn ail ddarllen nifer o lyfrau o flynyddoedd yn ôl. I gael newid, y mae'n braf mynd allan i'r ardd ac i'r tŷ gwydr' er mai Gareth sy'n gwneud y gwaith trwm bellach. Rwy'n treulio tipyn o amser ar y cyfrifiadur, a gwylio rhai rhaglenni ar iplayer. Yr offer diweddaraf i mi yw 'facetime' lle mae rhywun yn gweld llun y person mor glir yn ogystal â chlywed y llais.

Cyn i ni orfod cadw ar wahân, roedd Jean, un o'r teulu a hen ddisgybl, yn arfer dod yma bob wythnos i lanhau y tŷ, ond daeth hynny i ben am y tro. Ond mae'n rhyfedd beth all rhywun ei wneud pan fo rhaid.

Arferai fy nhad gadw dyddiadur, ac rwyf wedi mwynhau ail ddarllen y rhain a chael blas ar weld bywyd cefn gwlad mewn oes a fu. Rwy'n hoff iawn o edrych ar hen luniau, ac y mae gennyf tua 20 albwm o luniau wedi eu casglu dros y blynyddoedd. Gallaf dreulio oriau yn edrych arnynt, ac yn cofio'r achlysuron.

Wrth wrando ar y newyddion am yr haint presennol a'r holl golli bywydau o'i herwydd, daeth i'm meddwl hanes am rywbeth tebyg a ddigwyddodd yn ein cylch ni dros 150 mlynedd yn ôl. Yng ngwanwyn 1864 collodd teulu cyfan a oedd yn byw yn Foel Ortho, Hirnant eu bywydau oherwydd y dwymyn typhoid. Y tad, John Jones, yn 56 oed, ei wraig Catherine yn 55 oed, a'u plant, Jane yn 21 oed, Edward yn 19 oed, Elizabeth yn 17 oed, a Margaret yn 15 oed. Margaret a gollodd ei bywyd gyntaf ar Ionawr 18, a'r tad oedd yr olaf o'r teulu ar Ebrill 23. Y mae eu bedd ym mynwent Sant Thomas. Hawdd dychmygu y gofid a'r arswyd ymhlith trigolion y cylch bryd hynny.

Am y tro rwy'n diolch i bawb sy'n estyn cymorth i wneud bywyd yn haws i lawer mewn cyfnod anodd iawn, a gan obeithio y bydd yr argyfwng yma yn mynd heibio yn fuan iawn.

## PROFIAD HEDD THOMAS

**(mab Judith a David) yn Ne Corea**



Symudais i Dde Corea ar Ddydd Gŵyl Dewi. Cael a chael fu hi imi fynd, gan roedd pethau'n edrych llawer gwaeth yma nag ym Mhrydain ar y pryd. On'd yw pethau wedi newid!

Dwi bellach yn byw yn Incheon, dinas i'r gorllewin o Seoul gyda'r un boblogaeth â Chymru. Y bwriad oedd aros tan ddiwedd y flwyddyn a gweithio yn y tŷ opera yma, ond o ganlyniad i'r firws mae o wedi cau yn ogystal â phob un canolfan celfyddydau perfformiadol arall. Mae hynny wedi gwneud dod o hyd i swydd yn amhosib am y tro.

Serch hynny, nid yw bywyd pob dydd wedi cael ei effeithio gormod. Mae pawb yn gwisgo mwgwd o hyd tu allan i'r tŷ heblaw wrth fwyta, ac mae rhywun yna i roi prawf ar dy dymheredd cyn i ti fynd i mewn i ganolfan siopa neu fanc. Tra bod ysgolion, amgueddfeydd a sefydliadau cyhoeddus eraill wedi terfyn eu gwasanaethau am y tro, mae bwytai, caffis, tafarnau, siopau, sinemâu, gwestai, campfeydd, arcedau difyrion a phob math o gwmnïau preifat arall wedi aros ar agor – er bod rhai clybiau nos a *noraebang* (ystafelloedd carioci) wedi gorfod cau am sbel ar ôl pigyn bach mewn achosion. Nid wy'n gallu cymryd gwersi Corëeg yn

neuadd y dref neu un o'r prifysgolion yma yn ôl fy nghynllun, er enghraifft, ond rwy'n gallu cymryd rhai preifat, ac wedi dechrau dysgu'r *gayageum* (offeryn traddodiadol) wrth ymweld ag athrawes yn ei thŷ, ac yn rhoi gwersi Saesneg preifat yn fy fflat.
Mae gan bobl De Corea ddisgwyliadau uchel o'u llywodraeth. Cawsant eu siomi gyda'r ymateb i'r epidemig MERS pum mlynedd yn ôl. Y tro hwn, â phlaid arall mewn gofal, mae'r ymateb wedi bod yn llawer mwy rhagweithiol, penderfynol a thryloyw. Ym mis Ebrill cafodd etholiad y cynulliad cenedlaethol ei gynnal, a'r blaid lywodraethol yn ennill hwb mawr i'w mwyafrif.

Nid oes unrhyw ran o'r wlad wedi cael ei rhoi dan gyfyngiadau neu mewn cwarantin, hyd yn oed Daegu, y ddinas lle mae dros hanner yr achosion wedi ymddangos. Yma yn Incheon, cant a hanner o achosion yn unig sydd wedi bod, a neb wedi marw. Pob tro mae achos newydd yn cael ei ddarganfod, mae pawb yn yr ardal yn derbyn neges destun argyfyngus gyda manylion o le mae'r person wedi bod yn ddiweddar heb ddatgelu ei hunaniaeth. Ond nid yw'r negeseuon yma'n gyfyngedig i'r firws; ers cyrraedd yma rwyf wedi derbyn rhai yn rhybuddio rhag gwyntoedd cryf, aer sych sy'n gallu cychwyn tân gwyllt, a daeargryn a ddigwyddodd dros y ffin ynn Ngogledd Corea! Er gwaethaf y peryglon anarferol hyn, rwy'n teimlo'n ddigon diogel a chyfforddus yma hyd yn hyn.

# PROFIAD MENNA ROWLANDS

**Perchennog tafarn Y Gôt**




Dyma ni, yn dod mewn i'r nawfed wythnos o'r "lockdown",ac yma yn y Gôt, mae'r drws wedi ei gau a'i gloi a'r tapiau cwrw wedi'u troi ffwrdd. Does dim golau yn y bar, dim tân yn y grât, dim prês yn y "til" ond mwy o lo yn y sied!
Mae pethau wedi newid yma dros nos, ddim yn unig o'r ochr fusnes ond yn fwy na hynny, y tawelwch o beidio gweld pobol yn galw heibio.
Er mai lle bach ydi'r Gôt, mae'r golled o ddim gweld y "teulu bech" â ddaeth yma i ymlacio ,cael sgwrs a rhoi'r byd yn ei le, tra'n cael peint neu ddau, yn fawr. Mae'n debyg fod o wedi cymryd rhywbeth fel hyn i ni sylweddoli pa mor bwysig ydi llefydd fel yma i'r gymuned.
Y peth anoddaf i fi, ydi peidio gweld ffrindiau a theulu, a chael cwtch efo fy ŵyr Deio ac wyres Efa, a cholli allan ar yr hwyl efo plant bach annwyl Coedtalog. Gobeithio y byddwn yn gallu dod at ein gilydd yn fuan i weld yr harddwch o'n cwmpas, ac i werthfawrogi lle den ni'n byw.
OES GAFR ETO? Ddim ar hyn o bryd !!!
Cymerwch ofal bawb .



# PROFIAD RICHARD LLOYD



Uwch Bartner Cwmni Cyfreithwyr GHP

Mae'n anodd amgyffred beth sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf. Roedd y 'lockdown' sydyn yn sioc anferthol. Fel twrne efo bron deugain mlynedd o brofiad, doedd yna ddim byd wedi fy mharatoi am yr amgylchiadau dyrys hyn. Wrth gwrs roedd pawb mewn sefyllfa debyg a neb yn sicr beth oedd yn mynd i ddigwydd.

Roeddem fel Partneriaeth yn gorfod gwneud penderfyniadau cyflym efo elfen fawr o boeni – poeni am ddyfodol ein busnes a'n staff. Fel twrneiod, wrth gwrs, rydym yn dibynnu ar werthu ein hamser. Gan fod y system gyfreithiol yn dal i symud (h.y. roedd y llysoedd troseddol a sifil dal yn eistedd) bu rhaid gwneud trefniadau i alluogi delio efo'r gwaith.

Penderfynu felly:

1. I ddefnyddio technoleg gymaint ag y gallem i alluogi'r rhan fwyaf o gyfreithwyr i weithio o gartref. Diolch i'r drefn am dechnoleg. Yn lwcus iawn, roeddem eisoes wedi buddsoddi mewn laptops a allai gysylltu â'n intranet o'n cartrefi.

2. Cael 'skeleton staff' yn ein pump swyddfa a defnyddio'r system 'furlough' i rai o'n staff cynorthwyol.
3. Cloi drysau y swyddfeydd a chysylltu â'n cleientiaid ar y ffôn neu drwy e-bost.
4. Cael cyfarfodydd dyddiol o'r partneriaid drwy ddefnyddio technoleg.

   Rwyf yn falch iawn o'm partneriaid ac o'n staff i gyd am y ffordd maen nhw wedi ymateb i'r amgylchiadau. Rydym yn sylweddoli y gallwn weithio mewn ffyrdd gwahanol. Fydd pethau ddim yr un fath am amser hir (efallai byth ond mae ambell wers wedi'i dysgu. Wedi symud ymlaen dau fis rydyn ni'n llawer mwy hyderus am y dyfodol.

# Profiad Siop gwallt a harddwch Y Falls.

Mae drws siop gwallt a harddwch 'Y Falls' wedi bod ar gau rŵan am dros wyth wythnos – ron i byth yn meddwl base gymaint o wythnosau yn mynd heibio heb dorri, lliwio neu sychu gwallt!
Mae cynnig gwasanaeth gwallt a harddwch yn ein cymuned glos ni yn dod ag ambell gwsmer i mewn yn aml iawn, ac weithiau mae'r ochor gymdeithasol o fynd i'r siop gwallt mor bwysig â'r 'blow dry' neu'r lliw ffansi ar yr ewinedd. Mae paned a sgwrs a rhoi'r byd yn ei le yn llesol iawn, felly mae colli'r cyswllt yma efo bobol yn gallu bod yn dipyn o beth.




Rydym yn gobeithio eich bod chi I gyd yn ymdopi efo'ch gwallt, ychydig yn hir erbyn hyn dwi'n siŵr ac mae ambell ymdrech cartref i'w weld o gwmpas y dyffryn!
Daliwch ati mi fyddwn yn ôl i'ch helpu chi cyn bo hir!
Er ein bod ni i gyd yn ysu i ddychwelyd yn ôl i'r gwaith mi fydd torri gwallt yn brofiad hollol wahanol i ni. Fydd dilyn canllawiau newydd iechyd a diogelwch yn sialens mewn awyrgylch lle ma cadw draw o'n gilydd yn anodd! Ond fydd pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn cadw pawb yn saff!
Cadwch yn saff - edrych ymlaen at eich gweld yn fuan.

Elliw, Debbi, Nia ac Elin

## PROFIAD GWYNDAF OLIVER
### (mab Cath, yn gweithio yn yr Almaen)

Symudais i Braunschweig yn yr Almaen ym mis Hydref i ddechrau PhD mewn cemeg. Dyma ychydig o fy mhrofiadau ym myd gwyddoniaeth ers i'r pandemig Covid-19 ddechrau.
Er bod yr Almaen wedi delio yn dda gyda'r pandemig i gymharu â'r DU, roedd ei effaith yn dal i fod yn hawdd i'w weld a chlywed yma. Bu'r strydoedd yn dawel iawn ers mis Mawrth, a chafodd canran fawr o'r trenau a bysiau eu



canslo, er bod ychydig o normalrwydd i'w gael erbyn hyn. Gan fod y rheolau yn yr Almaen yn medru bod yn eithriadol o wahanol yn dibynnu ar eich "*Bundesland*", roedd yn od iawn clywed am brifysgolion yn cau eu labordai i gyd a gyrru pawb i weithio o adre, er ein bod ni'n dal i weithio fel arfer, ond yn y diwedd, yr un peth a ddigwyddodd yma. Cau popeth a oedd yn bosib i'w gau, dim ond llond llaw o staff i fynd i mewn i'r adeilad, i gadw'r offerynnau technegol yn rhedeg. Y broblem wedyn - beth all ymchwiliwr cemegol ei wneud o adre? Does gen i ddim labordy mewn sied yn yr ardd, na chwpwrdd yn llawn o gemegion. Sut all "gweithio o adre" ddigwydd?
Yr ateb i rai oedd i ysgrifennu cannoedd o dudalennau o ddata yn y fformat cywir, yn barod at pan y bydden nhw'n ysgrifennu thesis, i eraill ysgrifennu papur a fu bron a'i orffen ers sbel. I mi, nid oedd hyn yn opsiwn. Does dim llawer o ddata ar gael ar ôl llai na chwe mis, ac yn sicr doedd dim papur yn barod i'w gyhoeddi. Am fis, fy ngwaith i oedd cyfieithu darlithoedd i'r Saesneg, a chreu PowerPoint ar gyfer dysgu ar-lein; roedd rhaid i fy ymchwil i aros.
Tua mis yn ddiweddarach, ail-agorwyd y labordai, a bu'n bosib i bopeth fynd yn ôl fel yr oedd, o ran gwaith o leiaf. Er hyn, mae'n rhaid gwisgo masg ar unrhyw adeg pan nad ydym o fewn ein lab ein hunain, ac mae'n rhaid glanhau pob arwyneb sy'n cael ei gyffwrdd. Bu rhaid i'r ystafelloedd a rennir gael sawl rheol newydd, ac mae popeth yn cymryd llawer iawn yn hirach nac o'r blaen. Er hyn, roedd yn dda i gael gweld ei bod yn bosib i ni addasu yn eithaf cyflym.
Y tu allan i'r labordy, mae llawer iawn o'r siopau wedi agor eto, ac mae hi'n bosib nawr mynd i'r dafarn, neu am bryd o fwyd mewn bwyty mewn grwpiau o ddau - cyn belled â'ch bod yn aros yn ddigon pell o bobl nad ydych yn byw gyda nhw. Ac i mi, bu'r pandemig yn siawns gwych i fedru ail-gysylltu a ffrindiau o adre ac o'r brifysgol, gan fod pawb yn awr yn siarad ar lein yn fwy aml, ac a mwy o amser i dreulio ychydig o oriau yn siarad, neu yn gwneud cwis ar-lein.

Cadwch yn saff.

# Llangynog

## Enid Jones

Tawel iawn yw bywyd yn y pentref o hyd. Diolch am y tywydd braf i godi calon a dim ychwaneg o dannau diolch byth.

**Cydymdeimlad**
Drwg iawn oedd clywed am farwolaeth Henry Lloyd o Llwydiarth yn ddiweddar. 'Roedd Henry wedi ei eni a'i fagu yn Buarthglas Cwm Rhiwarth, felly roedd yn un o blant y pentref.
Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu colled.

**Enillwyr Clwb 150 y Clwb Bowlio**.
Mis Mawrth
£30- Pat Loffman.
£10- Denny Young a Ken Lewis.
£5 – Beb Prior. Maisie, Jack Hughes, Bill Mayer a Wesley Hand.

Mis Ebrill
£30 – Beryl Mayer
£10 – Joy Loffman a Wesley Hand.
£5 – John Jones, Len Howell, Ken Lewis, Joyce Kavanagh a Nia New Inn.

**Sefydliad y Merched**
Bu aelodau Sefydliad y Merched, Llangynog cyn brysured ag erioed yn ystod mis Ebrill, gan rannu eu hymdrechion ar y we mewn ymdrech i barhau fel cymuned agos. –

Byw mewn cyfnod o gyfyngiadau symud
Penderfynodd yr aelodau wisgo fel enfys er mwyn anrhydeddu'r GIG a phawb sy'n gofalu a'r canlyniadau yn lliwgar ac yn ddyfeisgar.



Dyma waith Iona Jones. Mae wedi ei grosio, ac wedi ei roi ar yr hysbysfwrdd yn y pentre i ddiolch i weithwyr GIG









Dathlu Diwrnod V.E.
Bu'r aelodau yn dathlu (ar bellter priodol wrth gwrs) trwy wisgo dillad o'r cyfnod, creu byntin a mwynhau te prynhawn yn yr heulwen.





# MENTER IAITH FFLINT A WRECSAM

## Gweithio o adref

Mae staff Menter Iaith Fflint a Wrecsam yn parhau i weithio o adre, ac er nad ydym yn gallu cynnal digwyddiadau a gweithgareddau yn y cymunedau fel yr arfer, mae'r Fenter yn rhannu nifer o syniadau a gweithgareddau amrywiol a hwyliog y gallwch chi eu gwneud heb orfod gadael eich tŷ ar ein cyfryngau cymdeithasol. Mae modd ein dilyn ar Facbook, Twitter, Instagram ac mae gennym sianel Youtube hefyd. Cofiwch hefyd am y grŵp 'Gweithgareddau Cymraeg Gartref' ar Facebook- grŵp sydd wedi cael ei greu gan Fentrau Iaith Cymru fel lle i bawb allu rannu adnoddau, digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg i bob oed wneud gartref.

**Common Voice Cymraeg**
Un o'r pethau rydym yn annog pobl i wneud a ninnau'n treulio mwy o amser adref yw cyfrannu eu lleisiau i'r Common Voice Cymraeg. Tybed os oes gennych chi Alexa neu ddyfais adnabod llais arall yn eich tŷ ac wedi ceisio siarad Cymraeg hefo'r dyfais hwnnw? Yn anffodus, ar y funud ychydig iawn o Gymraeg mae'r dyfeisiadau hyn yn eu deall, a'r pryder ynghylch hyn yw bod perygl cynyddol i gartrefi ddefnyddio mwy o Saesneg wrth ofyn cwestiynau a derbyn atebion gan y dyfeisiadau. Er mwyn osgoi hyn ac er mwyn datblygu technoleg adnabod llais sydd yn deall ac yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, mae Common Voice Cymraeg yn holl bwysig. Gallwch helpu drwy gyfrannu i'r Common Voice Cymraeg drwy unai recordio eich llais eich hunain neu ddilysu brawddegau eraill. Gallwch wneud hyn drwy fynd i'r wefan ganlynol: https://voice.mozilla.org/cy.

**Atebion Cwis**

1. Seland Newydd
2. Kazakhstan (Wedyn Mongolia ac wedyn Chad)
3. Gaiana Ffrengig, Swrinam, Gaiana, Feneswela, Periw, Bolifia, Paraguay, Yr Ariannin, Wrwgwai.
4. Kazakhstan, Kenya, Kiribati, Kuwait, Kyrgyzstan
5. Gwlad yr Ia.
6. Nepal
7. Amason a'r Nîl
8. 9
9. Caeredin
10. Gwiriwch ar fap.

# CROESOSWALLT

## Hefin Jones

Carnifal

Cynhaliwyd carnifal poblogaidd yng Nghroesoswallt am nifer o flynyddoedd, ond ydych chi'n cofio carnifal yn Llansilin a Llanrhaeadr tua diwedd y 1950au?

Penderfynodd criw o ddynion ardal Moelfre a Llansilin fynd fel 'Cowboys & Indians' i garnifal Llansilin. Roedd merch fach, Gwenan Hughes oedd yn byw yn Prion ger Dinbych yn dod am wyliau bob haf at deulu ei hewyrth a oedd yn byw drws nesaf i mi. Cawsom ni hwyl yn ei gwisgo hi i fynd i'r carnifal fel unigolyn i'r gystadleuaeth gwisg ffansi fel Diana Dors, actores adnabyddus yr adeg honno. Roedd gan Gwenan wallt golau hir i lawr ei chefn a gwisgodd un o'm ffrogiau i a oedd i lawr at ei thraed hi.

Penderfynodd y criw dynion wedyn i fynd i garnifal Llanrhaeadr ar Ddydd Llun y Sulgwyn ym 1959 fel 'Robin Hood and his Merry Men'. Roedd y teulu Bradbury wedi dod o Lerpwl i fyw i Fryn Ellyll, Llansilin ac roedd Brad, fel y galwyd tad y teulu, wedi gwisgo fel Friar Tuck. Roedd o'n ffitio'r rhan yn berffaith gan ei fod o'n foel ar ganol ei ben a gwallt reit rownd fel roedden ni wedi gweld lluniau o Friar Tuck a Pat, ei ferch, oedd 'Maid Marian'. Roedd un bachgen bach o Lanrhaeadr wrth ei fodd efo nhw a methu gadael llonydd iddynt.

Penderfynu wedyn mynd i garnifal y dre ond dwi ddim yn cofio fel be, efallai 'Cannibals'. Roedd carnifal mawr yn cael ei gynnal ym Mhrestatyn bob blwyddyn a daeth sgowt oddi yno i Groesoswallt a gofyn iddynt fynd i garnifal Prestatyn. Aethant fel 'Cannibals' a ffeindio hen foeler a'i gael fel crochan ar y fflôt. Rhoddwyd ni ferched, Gwenan a Bethan Pantglas Isa, Maureen Laurels a minnau (Hefin Ysgwennant) i gerdded yn ystod yr orymdaith a fase dau o'r dynion (y cannibals) yn neidio i lawr o'r lori a dal un ohonom a'n rhoi ni yn y crochan! Glywsoch chi erioed y fath sgrechian a gweddi gan y gwylwyr wrth iddyn nhw ofni pwy fyddai'r nesaf i'r crochan!

Cawsom ni gymaint o hwyl, a chynhaliwyd parti Nadolig yn yr Institiwt ym Moelfre (wedi mynd ers blynyddoedd) i bawb oedd yn neud efo'r fflôts a'u teuluoedd. Atgofion melys.



*Ym Mhrestatyn, Awst 1959*

*Yng ngharnifal Llanrhaeadr, dydd Llun y Sulgwyn 1959 – Robin Hood and his Merry Men*



*Cowboys & Indians tua 1959. Elwyn Hughes, Sgwennant; Cec Evans, Moelfre; Wyn Hughes, Laurels (Llansilin)*




**Marwolaeth.**

Bu farw Mrs Doris Morgan yn 97 oed ar ddiwedd mis Ebrill. Roedd hi'n enedigol o Foelfre ac yn cadw siop yno. Daeth i fyw i'r dre 'ma gyda'i diweddar ŵr, Bob, llawer blwyddyn yn ôl a buodd mewn cartref gofal am y 2-3 blynedd olaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir gyda'r teulu oll.

**Cylch Ti a Fi.**

Mae Elin, arweinydd Cylch Ti a Fi Croesoswallt, wedi bod yn brysur yn recordio fideos o'r caneuon mae'r plant yn eu mwynhau wrth gyfarfod yng nghapel Horeb, a'u cyhoeddi ar ein tudalen Facebook. Mae hi'n gobeithio postio fideo newydd bob dydd Iau. Edrychwn ymlaen at allu cyfarfod eto cyn bo hir. Mae **dros 2000** o bobl wedi gwylio'r fideo cyntaf hyd yma!!

Atebion Cwis Menter Fflint a Wrecsam




## CYFARCHION A DIOLCHIADAU

## Diolch.

Dymuna Mair Ellis, Tawelfa, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu consyrn, galwadau ffôn, cacennau a'u dymuniadau da yn dilyn ei hanffawd yn ddiweddar. Diolch hefyd i Tom am ei ofal a chadw'r tŷ i redeg!!!
Diolch yn fawr iawn.

*************************************************************

## PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i Ela Haf a Carwyn Alun Owen, Llety Ifan, Pontfadog fydd yn 8oed ar Fehefin 7fed.

Cariad Mawr gan y teulu oll.xx

*****************************************************

## DIOLCH YN FAWR

Dymuna Hilda Evans, Bronygaer ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl ddymuniadau da ar ei phenblwydd yn 80 yn ddiweddar. Diolch yn fawr am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a diolch hefyd am y galwadau ffôn yn ystod cyfnod y feriws ofnadwy yma.

Diolch yn fawr.

*******************************************

## Nodyn o Lanfechain

Mae Sioe Flynyddol Llanfechain wedi ei chanslo fel y sioeau eraill i gyd eleni ond fe fydd pawb yn edrych ymlaen am sioe fawr a llwyddiannus yn 2021.

*****************************************************

# LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr i Gwyn a Gwyneth Jackson Jones ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.



Priodas Aur Gwyn a Gwyneth Jackson Jones

Eich Hanner Cant, eich llwyddiant chi – rhannu,
Rhinwedd aur eleni,
Dyma ein dymuniad ni
Hwyr oes hir i'w thrysori.

*Mawrth 2020 Cymerau*

*******************************************

## SUDOCW.

Y mis diwethaf daeth tri ar ddeg o atebion i law o bob rhan o Gymru, o Rosmeirch yn Sir Fôn i Bont-goch yng Ngheredigion. Dyma'r enwau, Ann Ellis, Llanfihangel; Neil Ellis, Llanfyllin; Bethan Davies, Penybont Fawr; Richard Hughes, Bont -goch; Meirion Jones, Penybont Fawr; Gron Jones; Cefn Canol; John Lewis, Llanbadarn Fawr; Cleds Evans, Llanfyllin; Gwenda Hughes, Penygarnedd; Tom Roberts, Rhosmeirch; Den Mathias, Llanfyllin; Hywel Jones, Llanrhaeadr Y.M. a'r enw a ddaeth allan o'r het oedd **Iola Evans, Pentre, Pontfadog.** Fe fydd tocyn gwerth £10 ar y ffordd iddi yn fuan. Cadwch yn saff a diolch am gystadlu.

********************************************

# Glyn Ceiriog

**Graham Edwards**

**Ochenaid o ryddhad!**

Mae trigolion Y Maes, Glyn Ceiriog yn falch iawn o gael eu maes parcio yn ôl. Ers mis Hydref diwethaf, mae tua hanner y maes parcio dan sylw wedi bod dan sbwriel, gwastraff a rwbel o'r gwaith cynnal a chadw yng ngardd un o'r tai cyfagos. Mae hyn wedi creu problemau parcio dros gyfnod go helaeth ond, erbyn hyn, mae'r maes parcio, fel y gwelwch o'r llun, bron iawn fel yr oedd cyn dechrau'r gwaith. Yn sicr, bu rhaid i bobl feddwl o ddifri am eu sgiliau parcio dros y Gaeaf!



**Cinio Argyfwng y Cyngor Cymuned mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gristnogol.**

Oherwydd Covid 19 a'r cyfuniadau ddaeth i le nid oedd y Ganolfan Gristnogol yn gallu cynnig cinio wythnosol arferol i drigolion Glyn Ceiriog, Pandy a Nantyr. Yn ffodus bu'r Ganolfan yn llwyddiannus yn cael grant gan AVOW oedd yn galluogi cynnig cinio i drigolion oedd yn hunan ynysu a dros 70 oed yn y gymuned. Mewn Partneriaeth â'r Cyngor Cymuned mae'r prydau yn cael eu coginio gan Ted ac Anne Jackson ac yn cael eu pacio a'u cludo i gartrefi gan wirfoddolwyr. Cludwyd 44 pryd i gartrefi yr wythnos yma (hyd at 23ain Mai.) Mae'r prydau am y tair wythnos gyntaf yn rhad ac am ddim. Pe baech yn hoffi cael eich cynnwys neu yn adnabod rhywun ddylai gael pryd wnewch chi gysylltu â'r Asiant Cymunedol Glyn Ceiriog - Dilys Bates 07908 373 003
( Adroddiad gan Jean Davies.)

Er na chynhaliwyd oedfa yn Eglwys Unedig Seion, Glyn Ceiriog ers sawl wythnos erbyn hyn, mae'r capel wedi bod yn llawn prysurdeb. A bod yn fanwl gywir, mae'r prysurdeb i gyd wedi bod ar y tu allan. Mae'r adeiladwr lleol Elfyn Edwards wedi lledu'r maes parcio, wedi dymchwel yr hen doiledau ac wedi creu llwybr drwodd o'r maes parcio at ddrws y capel. Mae parcio wrth y capel wedi bod yn gyfyng ers i bedwar capel yn y cylch uno yn 2018 a bydd creu mwy o le yn lleddfu'r broblem. Roedd yr hen doiledau mewn cyflwr gwael a neb yn eu defnyddio ers cael cyfleusterau newydd yn y festri rhyw ychydig flynyddoedd yn ôl a bydd y llwybr newydd at ddrws y capel yn arbed gorfod cerdded ar y brif ffordd, lle nad oes pafin ar ochr y capel. Diolch yn fawr i Elfyn a'i gyd-weithwyr am eu gwaith caled.

Mae Jonathan Phillips ac Eryl Owen wedi manteisio ar y cyfle i wneud gwaith cynnal a chadw ar y ffenestri. Yn ogystal, mae Jonathan wedi peintio drws a giât y capel a bydd sglein newydd ar yr adeilad pan fydd y capel yn ail-agor. Diolch yn fawr i'r ddau ohonynt am wneud gwaith mor drylwyr.



*Jonathan Phillips ac Eryl Owen yn cae hoe haeddiannol o'r gwaith ar y ffenestri.*



*Y llwybr newydd at ddrws Capel Seion*



*Yr hen doiledau - wedi mynd !*

# Cyswllt Celf yn symud ar-lein

Ers cyhoeddi'r Cyfyngiadau Symud Cenedlaethol, bu staff Cyswllt Celf yn gweithio adre fel bod pob gweithdy yn cael ei gyflwyno ar-lein. Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru a Sefydliad Moondance sy'n ariannu ein rhaglen ar-lein ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ein cefnogi. Rydym yn rhedeg gweithdai crefft a cherddoriaeth ar Zoom gydag artistiaid proffesiynol, gan ddod â hyfforddiant o'r radd flaenaf i mewn i nifer dda o gartrefi teuluol. Mae ein prosiect blynyddol, Masquerade, sef prosiect celfyddydol a drama i oedolion ag anableddau dysgu yn parhau fel arfer ond ar-lein, ac mae digon o hwyl i'w gael. Mae ein gwirfoddolwyr cymunedol yn trefnu heriau ffilm a ffotograffiaeth, nosweithiau meic agored rhithwir a hefyd yn ein helpu i greu dau brosiect newydd, sef 'Prosiect Penpal', lle mae gwirfoddolwyr yn anfon llythyrau a lluniau at breswylwyr cartrefi gofal Gogledd Powys a 'Hanes i'r Dyfodol', sef casgliad parhaus ar-lein o brofiadau mewn cymuned dan y cyfyngiadau symud. Efallai yr hoffech chi fod yn rhan o hyn? Mae ein rhaglen gweithdai a digwyddiadau yn parhau i dyfu a datblygu. 'Hoffwch' ein tudalen Facebook i wybod mwy am y digwyddiadau sydd ar y gweill, mae yna rywbeth i bawb. Gallwch weld y gweithdai nesaf yn –

http://artsconnection.org.uk/events-directory/

# Cerrig Creadigol Llanfyllin



Gallwn ddod â lliw i Lanfyllin mewn ffordd syml iawn:
1. Dod o hyd i garreg
2. Addurno eich carreg – efo paent, Sharpies ac ati
3. Ei gadael yn y sgwâr ger y Gofeb Rhyfel wrth fynd am dro neu eu chuddio rhywle yn y dref i rywun arall ddod o hyd iddi. Neu gallwch ei gadael ar garreg y drws.
4. Anfon llun o'ch carreg yn ei lle aton ni – sian@artsconnection.org.uk, gan gynnwys eich enw ac efallai ychydig am y ffordd ddewisoch chi addurno eich carreg. Neu gallwch ei gosod ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod - #llanfyllinrocks
@artsconnectionpowys ar Facebook ac Instagram, @Arts_Connection ar Twitter

Sylwch – nid ydym am i unryw un y tu allan i'r dref ddod â'u cerrig – cadwch hwn yn lleol. Ond byddem wrth ein bodd yn gweld/cefnogi unrhyw drefi/pentrefi eraill fyddai am anfon eu lluniau o gerrig ar eu trothwy, neu mewn man arbennig yn eu hardal eu hunain yn gwneud yr un fath.



*Dyma Demi Fletcher yn gosod carreg*

# Hanes i'r Dyfodol

***GALWAD AM GYFRANIADAU!***

Mae Cyswllt Celf yn gofyn i chi, aelodau ein cymuned yng Ngogledd Powys a Wrecsam i roi gwybod i ni am eich profiad chi dros y cyfnod o gyfyngiadau symud. Byddwn yn crynhoi eich profiadau amlgyfrwng i greu llyfr lloffion digidol ar-lein a'i alw yn 'Hanes i'r Dyfodol', gan gofnodi eich cyfraniadau.

Ydych chi'n cadw dyddiadur? Yn ysgrifennu blog? Yn rhannu lluniau ar Instagram? Yn recordio caneuon neu fyfyrdodau drwy YouTube neu Facebook? Anfonwch eich straeon byrion, eich caneuon, blogiau, gweithiau celf, ffotograffau, perfformiadau – does dim pen draw! Rydym am glywed am eich profiadau dros y cyfnod rhyfedd hwn.
Pa sgiliau newydd ydych chi'n eu dysgu?
Gawn ni weld eich paentiad newydd?
Ysgrifennoch chi gân newydd am y cyfyngiadau symud?
Gawn ni ei chlywed?
Beth neu bwy wnaeth i chi chwerthin?
Beth wnaethoch chi roi cynnig arno am y tro cynta?
Beth sy'n rhoi gobaith i chi?

Helpwch ni i ysgrifennu ein 'Hanes i'r Dyfodol' sy'n dod â ni ynghyd i ddathlu creadigrwydd a gwytnwch ein cymuned. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a sioned@artsconnection.org.uk

## Her Ffoto Deg Diwrnod


Cynhaliodd Cyswllt Celf ddwy her ffotograffiaeth boblogaidd. Mae her â thema wahanol bob dydd a daeth lluniau rhyfeddol i law. Roeddem am ddathlu'r sawl a ddaeth i'r brig efo Take2, yn enwedig yn y categori dan 16 oed – daeth nifer fawr o geisiadau gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

Sylwadau'r ffotograffydd Cordelia Weedon:"Teimlais bod ymateb gwych i Her Ffoto 1 a 2 ac fe wnes i fwynhau edrych ar y ceisiadau yn fawr. Roedd yn hynod anodd dewis y goreuon gan fod cymaint wedi dehongli'r testun mewn modd mor ddychmygus ac amrywiol ond o safon. Dw i wedi arfer beirniadu cystadlaethau o'r fath gyda beirniaid eraill a chael trafod pwy ddylai ennill – y tro hwn rhaid oedd trafod efo fi fy hun! Debyg 'mod i'n edrych am ffotograffau gwahanol. Yn yr adran Tirwedd Fwyd, daeth llun anarferol Sarah Roberts i'r brig – defnyddiodd fodelau bach o bobl gan roi'r pwyslais ar y bwyd – yn rhoi naws swreal iddo a phwysleisio pwysigrwydd bwyd. Roedd cynigion rhagorol yn yr Adran dan 16 a daeth y llun hwn gan Mabon McCluskey yn Adran y Ddawns yn ail, am ddal y modd rydym yn byw ein bywydau ar hyn o bryd – ar-lein.

Gobeithiaf y gallwn arddangos rhai o'r ffotograffau arbennig eraill rhywbryd.



1af Sarah Roberts *Tirwedd Bwyd*



*2il Nicky Badman Dal yr Enfys*



*3ydd Robert John Stephen Dal Splash*




*1 af Dan 16 Adam Jones Cariad at y GIG*



*1af Dan 16 Adam Jones Daliwch i ddawnsio*





*2il Dan 16 Mabon McCluskey Daliwch i ddawnsio*



*Emma Bass 3ydd dan 16 – Eitem a anghofiwyd*

# COLOFN CALUM






Y mis hwn mae staff Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn rhedeg, beicio a cherdded taith ffordd rithwir Califfornia i godi arian a fydd yn cefnogi'r system iechyd leol yn ystod y coronafeirws. Bydd yr holl arian a godir yn cael ei roi i Grŵp Meddygol Llanfyllin ar gyfer prynu offer hanfodol.

Bob blwyddyn mae disgyblion 6ed dosbarth yr ysgol yn dilyn arfordir gorllewinol UDA ar drip ysgol. Mae'r daith yn cynnwys 2,500 milltir yn ymweld â safleoedd fel San Francisco, Parc Cenedlaethol Yosemite, Death Valley, Las Vegas a Los Angeles. Mae'r sialens ar agor i'r holl staff a da ni'n cofnodi milltiroedd ar excel a'i ddanfon at Matt.

Yn bersonol, rwyf wedi ymuno â Strava sef ap sydd yn mesur pellter pan dach chi'n gwneud ymarfer corff, er mwyn cymryd rhan yn yr her ac wedi mwynhau'n fawr. Dwi wedi cwblhau dros 50 milltir o redeg yn barod ac rydw i ar fin mynd allan I redeg unwaith eto ar ôl sgwennu hwn!! Rwy'n teimlo'n llawer mwy heini ac yn bwysicach fyth yn llai pryderus.




Cadwch yn saff


**Swyddogion *Yr Ysgub***
**Cadeirydd:** Eleri Llwyd Jones, Llysawel, Llwyn-y-garth, Llanfyllin, Powys SY22 5JZ.
Ffôn: 01691 648725.
**Ysgrifennydd:** Alwenna Evans, Y Dderwen, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Llanfyllin, Powys SY22 5HZ. Ffôn: 01691 648787.
E-bost: alwennaevans@yahoo.co.uk
**Trysorydd:** Goronwy Jones, Bwlchydonge, Cefn Canol, Croesoswallt SY10 7JG.
Ffôn: 01691 652067.
**Swyddog Tanysgrifiadau:** Ann Ellis, Cil y Coed, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Llanfyllin, SY22 5HY. Ffôn: 01691 648588.
**Swyddog Hysbysebion:** Carys Evans, Cefn-y-Braich, Llansilin, Croesoswallt SY10 7QQ.
Ffôn: 01691 791240.
**Swyddog Cyswllt BYIG:** Lowri Roberts, d/o Siop Cwlwm, Neuadd Farchnad Powis, Pen Beili, Croesoswallt, SY11 1PZ.
**Teipyddes a Chysodwraig Dros Dro:** Eleri Llwyd Jones, Llysawel, Llanfyllin, Powys SY22 5JZ

# LLE DI FAN HYN?


# DECH CHI'N 'NABOD EICH BRO?

Oeddech chi'n adnabod y lleoedd mis diwethaf? Unwaith eto mae'r lluniau yma wedi dod o gasgliad hen gardiau post Henry Evans Llansilin. Diolch eto iddo fo amdanyn nhw. Allwch chi ddyfalu lle maen nhw? Efallai mai darn o'r adeilad sydd yna'n unig neu fe all fod yr adeilad wedi'i ddymchwel erbyn hyn. Pa mor dda ydych chi'n adnabod eich bro? (Atebion ar dudalen 17)


Llun 1


Llun 2


Llun 3


Llun 4

# Cylch y cartref

**Nan**

Y mis yma, mae na gyfrannydd cyfarwydd am amryw o resymau. Yn gynta', byddwch yn ei hadnabod fel nyrs yn y feddygfa yn Llanfyllin, hefyd mae ganddi ddiddordeb yng nghoginio ac wedi cyfrannu rysetiau i'r golofn hon o'r blaen.
Mae na naws Roegaidd i'r saig yma gan fod Enid a Geraint wedi gorfod gohirio eu gwyliau i'r wlad honno oherwydd y feirws, ac felly wedi penderfynu paratoi swper Roegaidd a dychmygu eu bod yn torheulo yn awyrgylch unigryw ac arallfydol y Duwiau Groegaidd. Dim bwys, gewch chi fynd eto!
Diolch Enid, gobeithio gei di fynd yn fuan!



## Kleftiko Cig Oen

**Cynhwysion**

6 ewin garlleg
3 llond llwy fwrdd o oregano wedi'i dorri'n fras
1 llond llwy fwrdd o rosmari wedi'I dorri'n fras
croen tenau 1 lemwn
sudd 2 lemwn
½ llond llwy de o sinamon wedi'i falu
3 llond llwy fwrdd o olew olewydd
2kg coes cig oen
1kg tatws Desiree, wedi'u torri yn haneri neu chwarteri
5 deilen llawryf

**Ar gyfer yr iogwrt mintys**

250g o iogwrt Groegaidd
sudd ½ lemwn
llond llwy fwrdd o olew olewydd
llond llaw o fintys, wedi'i dorri'n fân

**Ar gyfer y salad Groegaidd**

1½ llond llwy de finegr gwin coch
1½ llond llwy fwrdd olew olewydd
100g o sbigoglys ifanc
bwnsiad bach o bersli, wedi'i dorri'n fras
½ nionyn coch wedi'i sleisio'n fân
175g o domatos ceirios, wedi'u torri yn haneri
½ ciwcymbr, wedi'i haneru ar ei hyd, tynnu'r hadau a'i sleisio
75g olewydd du Kalamata, mewn chwarteri, heb y garreg

**Dull**

1. Gwasgu'r ewin garlleg a llond llwy de o halen gan ddefnyddio breuan a phestl. Ychwanegu'r perlysiau, y croen lemwn, y sinamon ac ychydig o bupur du a'u gwasgu ymhellach. Yna ychwanegu 2 llond llwy fwrdd o'r olew olewydd a'i droi.
2. Gan ddefnyddio cyllell finiog, gwnewch dyllau bach dros y cig oen cyfan a rhwbio'r pâst i mewn iddo gan ei wthio yn ddwfn i mewn i'r tyllau. Rhowch y cig oen mewn bag bwyd mawr, tywallt y sudd lemwn i mewn a'i adael yn y marinâd yn yr oergell dros nos.
3. Tynnwch y cig oen allan o'r oergell awr cyn eich bod am ei goginio. Cynheswch y popty i 160C/140C ffan/ nwy 3.
4. Gosodwch 2 ddarn hir o femrwn pobi ar ben 2 ddarn hir o ffoil – un ar draws ac un ar ei hyd, i ffurfio croes. Rhowch y tatws yng nghanol y memrwn a'u cymysgu gyda gweddill yr olew olewydd ac ychydig o sesnin. Codwch ochrau'r ffoil a thywallt y marinâd o'r cig oen dros y tatws ac ychwanegu'r dail llawryf.
5. Gosodwch y cig oen ar ben y tatws a dod â min y ffoil at ei gilydd a'u gwasgu at ei gilydd yn dynn, fel bod y cig oen wedi'i lapio. Gosodwch o mewn tun rhostio a'i roi yn y ffwrn am 4½ awr nes bod y cig yn frau iawn.
6. Tynnwch y tun o'r popty a chynyddu'r gwres i 220C/200Cffan/nwy 7. Datodwch y parsel a gwasgu'r ffoil a'r memrwn dan rimyn y tun, gan dywallt y suddion ynddo dros y cig oen a dychwelyd y tun i'r popty am 20 munud arall, nes ei fod yn cychwyn troi'n frown. Tynnwch y cig o'r tun, ei lapio mewn ffoil a'i adael i orffwys.
7. Trowch y tatws drosodd a'u dychwelyd i'r ffwrn am 30 munud ac yna taenu mymryn o halen drostyn nhw. Tra mae'r tatws yn coginio, ewch ati i baratoi'r iogwrt gan gymysgu y cynhwysion â'i gilydd.
8. Cymysgwch y finegr gwin coch, yr olew ac ychydig o sesnin i greu dresin i'r salad. Cymysgwch weddill cynhwysion y salad yn ysgafn, gan ychwanegu'r dresin pan fyddwch yn barod i fwyta. Dylid gweini'r cig oen gyda'r tatws a suddion y cig, a'r salad a'r iogwrt ar yr ochr.



# LLANFIHANGEL

## Ann Gwyn

**Llongyfarchiadau a dymuniadau da**

Llongyfarchiadau i Menna yn y "Goat" ar ddod yn nain am yr eildro, yn dilyn genedigaeth ei hwyres gyntaf, Efa Mai, ar y cyntaf o Fai. Mae Efa yn ferch i Alwen a David Harding, Llanrhaeadr ym Mochnant, a dyma'r wyres gyntaf i'r nain arall hefyd, sef Janet Harding, fu'n athrawes yn Ysgol Llanfihangel ar un adeg. Llongyfarchiadau i'r teulu cyfan.

**Priodas Berl**

Llongyfarchiadau i Tomos John a Linda Jones, Dolwar Fach, fu'n dathlu penblwydd eu priodas ar y 7fed o Fai. Roeddent yn dathlu eu Penblwydd Priodas Berl, sef 30 o flynyddoedd o fywyd priodasol. Da yw cael cynnwys llun hyfryd hefyd i gyd fynd â'r hanes.



**Penblwydd**

Dymunwn yn dda i Angela, Bryn Glas fu'n dathlu'r deugain yn ddiweddar.


**Yn gwella…..**

Da clywed fod Alwena Howells adre yn ei chartref ym Mhengraig erbyn hyn, wedi iddi dreulio cyfnod byr yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda iawn iddi, gan obeithio ei bod yn teimlo'n llawer gwell erbyn hyn.

## CWIS

Rhywbeth i gadw'r ymennydd yn ystwyth yn ystod y cyfnod rhyfedd hwn.

1. Pa un ydy'r wlad sydd â'r arwynebedd mwyaf - Prydain neu Seland Newydd?
2. Pa wlad ydy'r wlad mwyaf heb fôr (land locked) yn y byd?
3. Pa wledydd sy'n ffinio â Brasil?
4. Sawl gwlad allwch chi enwi yn Saesneg sy'n dechrau gyda'r llythyren 'K'?
5. Pa wlad sydd â'r boblogaeth lleiaf dwys yn Ewrop?
6. Baner pa wlad sydd ddim yn betryal?
7. Enwch y ddwy afon hiraf yn y byd.
8. Sawl gwlad sy'n ffinio â'r Almaen?
9. Pa un o'r rhain ydy'r mwyaf gorllewinol: Caeredin neu Fryste?
10. Enwch 15 lle ym Maldwyn sy'n dechrau efo Llan.




**Coronafeirws**

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | G | N | A | D | W | Y | L | O | A | N | I | I | C |
| N | Y | M | Y | W | T | N | N | G | W | Y | P | A | Y |
| D | N | E | S | A | Y | A | N | A | D | L | U | D | F |
| P | E | S | W | C | H | N | Y | R | S | H | N | C | Y |
| W | H | C | T | I | D | M | C | U | D | C | I | O | N |
| S | U | C | S | N | A | W | A | P | D | E | L | V | G |
| Y | N | R | M | W | I | T | Y | S | L | R | G | I | I |
| W | A | E | E | A | Y | A | Y | F | G | B | O | D | A |
| D | N | T | N | R | A | M | F | B | E | I | R | R | D |
| L | Y | L | Y | D | L | Y | O | Y | S | T | A | G | A |
| A | N | L | G | I | D | C | L | L | G | Y | R | U | U |
| F | Y | E | M | A | E | U | Y | Y | C | S | H | O | L |
| O | S | P | Y | U | A | O | H | H | T | H | Y | D | U |
| G | U | T | D | S | P | A | N | D | E | M | I | G | U |

ANADLU
WARDIAU
YMOLCHI
PESWCH
NYRS
COVID
TWYMYN
CYFYNGIADAU
MENYG
DWYFETR
AROGLI
PANDEMIG
HUNANYNYSU
YSGYFAINT
DWYLO
PELLTER
BRECHLYN
YSBYTAI
GOFALDWYS
MASGIAU








# PORTREAD Y MIS

Diolch i Jane (Pennaeth ysgol Pennant) am gytuno i ateb cwestiynau y mis hwn ac i Rona am eu gosod. Diolch i Jane a'r holl athrawon eraill sydd wedi bod yn darparu addysg ar gyfer y disgyblion yn yr amser heriol yma. Mae'n siŵr eu bod yn dyheu am gael sicrwydd am ddyfodol yr ysgolion ac yn ysu i gael bod nôl yn y dosbarth.



## Jane Peate

1. Ble gawsoch chi eich magu?

Cefais fy magu ar fferm Rhydlli, Llangadfan.

2. Pa bynciau oeddech chi y neu mwynhau yn yr ysgol?

Roeddwn i'n hoff o nifer o bynciau yn yr ysgol, ond yn bennaf hanes. Ers cychwyn dysgu dwi'n hoffi dysgu mathemateg a gwyddoniaeth.

3. I ba goleg aethoch chi?

Es i goleg Aberystwyth i astudio hanes a hanes Cymru. Roedd yno adran wych ar y pryd. Dr John Davies, G.H.Jenkins a J.B. Smith i gyd yn arbenigwyr yn eu meysydd.

4. Pa ddawn arall fydde chi wedi hoffi ei gael?

(e.e. chwarae offeryn, arlunio, siarad iaith arall)

Fe fyddwn i'n hoffi cael dawn gerddorol. Dwi'n edmygu rhai sydd a'r gallu i ganu'r piano neu i ganu! O leiaf dwi'n gallu gwrando a mwynhau!

5. Pa fath o raglenni teledu fyddwch chi y neu mwynhau?

Dwi'n hoffi rhaglenni doniol ar y teledu neu ar y radio. Hen ffefrynnau Dad's Army, Morecome and Wise a C'mon Midffild dal yn ddiguro! Ar y funud y rhaglen sy'n gwneud i mi chwerthin yn uchel yw rhaglen Tudur Owen ar y radio.

6. Sut fyddwch chi'n ymlacio?

Y ffordd orau i ymlacio i mi yw chwarae pêl droed 5 bob ochr gyda hen ffrindiau o glwb pêl droed Merched Meifod. (Nid ffrindiau hen). Rydym yn chwarae yng nghanolfan Caereinion. Gêm "gyfeillgar" sy'n cael ei chymryd o ddifri am awr!

7. Oes gennych chi gi neu gath?

Mae gen i ddwy gath, Modlen, cymeriad digon tebyg i'r frenhines gyda disgwyliadau uchel iawn ac o gwmpas yr un oed. Mae Morgan Wmffre, yn fwy gwerinol, ac yn byw o gwmpas y lle hefyd.

8. Pe byddai ffrindiau yn trefnu diwrnod i helpu chi ddathlu penblwydd arbennig cyn gorffen gyda phryd o fwyd ,pa un o'r canlynol fydde yn apelio fwyaf atoch:

a) diwrnod mewn sba b) siopa c) theatr ch) gweld gem rhyngwladol

I ddathlu digwyddiad arbennig buaswn i wrth fy modd yn gweld gêm ryngwladol. Roedd rhaid aros yn hir i weld Cymru'n chwarae yn Ewro 2016. Dwi'n ddigon hen i gofio sawl siom! Cawn fwy o amser rŵan i werthfawrogi'r cyffro cyn Ewro 2020

9. Pe na baech wedi dilyn gyrfa ym myd addysg beth arall fydde chi wedi ei ddewis?

Yn ffodus dwi dal wrth fy modd yn dysgu. Does dim swydd well! Mae gweithio gyda phlant yn fraint. Does dim un diwrnod yr un fath.

10. Beth yw prif rôl athro/ athrawes, diddori neu addysgu?

Rôl athro yw galluogi disgyblion i ddysgu. Rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu dros eu hunain. Mae dysgwyr effeithiol yn dal i ddysgu trwy gydol eu hoes.

11. A yw athrawon yn dibynnu gormod ar y bwrdd gwyn a thechnoleg wrth baratoi gwersi?

Rhaid i ni fel ysgolion symud gyda'r oes! Mae angen cydbwysedd rhwng y dechnoleg newydd a'r dulliau mwy traddodiadol. Mae'n rhyfeddol sut mae ysgolion wedi symud ar lein yn y wythnosau diwethaf, byd diflas iawn fyddai parhau fel hyn am byth!

12. Pa newidiadau fu yn swydd yr athro yn ystod eich gyrfa?

Yr unig beth yn gyson ym myd addysg yw newid. Serch hynny mae dysgu da'r un fath o hyd. Sbarduno diddordeb disgyblion a gosod disgwyliadau uchel mewn awyrgylch cartrefol, cefnogol.

13. Pa gymwysterau sydd ei angen i fod yn lywodraethwr effeithiol mewn ysgol? A ddylen nhw, fel gynghorwyr dderbyn cydnabyddiaeth am eu gwaith?

Rôl llywodraethwyr ysgolion yw bod yn gyfeillion beirniadol, cefnogi a herio lle bo angen. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'u hysgolion yn rheolaidd er mwyn dod i adnabod yr ysgol yn well. Mae hyn yn ddatblygiad pwysig. Rydym yn ddiolchgar am yr holl amser mae llywodraethwyr yn rhoi'n wirfoddol i gefnogi eu hysgolion.

# YR URDD - EIN MUDIAD NI?

Yn y llun gwelwn swyddogion newydd yr Urdd, Cylch Myllin yn cyflwyno rhodd i Cath (Jones) am ei gwaith anhygoel fel ysgrifenyddes y Cylch am 30 mlynedd. Deallwn bod Olwen Morgan hefyd wedi bod yn drysorydd am yr un nifer o flynyddoedd a chyflwynwyd rhodd iddi hithau hefyd.




*Eleri, Gwenan, Cath ac Annwen*

Mae cyfraniad Cath wedi bod yn amrhisiadwy ac fe fu'n trefnu eisteddfodau'n hynod lwyddiannus am yr holl flynyddoedd, fwy neu lai ar ei phen ei hun. Eleni fe benderfynodd ei bod yn amser rhoi'r gorau iddi a diddorol sylwi bod angen tair, Gwenan, Eleri ac Annwen i lenwi'r bwlch. Cyflwynwyd y rhodd iddi ar y nos Wener cyn y Sadwrn pan ohiriwyd yr Eisteddfod Gylch oherwydd y coronafeirws.

Mae'n ddiwedd cyfnod felly i'r Cylch ond mae newidiadau eraill ar y gweill hefyd, gyda'r Urdd yn ail-strwythuro'n genedlaethol. Rhan o hyn oedd cau'r Swyddfa yn y Drenewydd ac eisoes mae Janis (Lewis) wedi gadael ar ôl gwasanaeth hir, ffyddlon ac effeithiol. Pob dymuniad da iddi.

Beth sydd gennyn ni ar ôl felly, heb swyddfa unman ym Maldwyn – i ddeud y gwir heb swyddfa unman o Ddinbych i Went ac o Lanllyn i Langrannog! Mae hyn yn anghredadwy ac yn drychineb achos er ein bod yn cwyno am yr Urdd yn aml, mae'n fudiad sy'n cyfrannu'n fawr at gynnal Cymreictod yn y sir. Mi fydd cynnal y gweithgareddau amrywiol sy'n cynnig cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol, yn lleihau yn arw a'r pwysau i gyd eto ar yr ysgolion. Mae'r awgrym i ddeud y gwir yn ein bychanu ac yn cryfhau'r teimlad nad yw Maldwyn o bwys i neb, y gogledd neu'r de. Beth am gyfraniad gwych Maldwyn ar hyd y blynyddoedd? Does ond rhaid crybwyll Aelwyd Penllys i weld yr effaith a gafodd y mudiad hwn. Sut fydd modd codi diddordeb a chodi arian at Eisteddfod 2023 a ninnau wedi cael ein trin mor siabi? Ydy'r Urdd wir yn haeddu'n cefnogaeth ar ôl ein diystyru mor swta?





Mae'n ddyddiau dyrys a'r Urdd bellach yn wynebu fwy fyth o gwestiynau yn sgil COVI-19. A fydd Mudiad ar ôl? A fydd posibl adfer yr Eisteddfod a'r sefyllfa ariannol? Rhaid canmol ymdrech yr Urdd i arbrofi a bod yn ddyfeisgar gydag Eisteddfod T (sy'n chwarae ar y geiriau 'ti' a 'tŷ') a welwyd ar y teledu wythnos diwethaf. Fuoch chi'n gwylio? Roedd y cystadlaethau'n hwyliog a gwahanol gyda thestunau newydd a dyfeisgar. Mae testunau Dinbych wedi'u rhewi tan y flwyddyn nesaf. Fel llawer mudiad ac achos arall, mae cwestiwn mawr uwchben dyfodol yr Urdd ac yn anffodus, yn sgil hynny, uwchben dyfodol y Gymraeg ym Maldwyn.



**ATEBION**


**LLE DI FAN HYN? DECH CHI'N 'NABOD EICH BRO?**

Llun 1 - Mynedfa Eglwys Llanfechain
Llun 2 - Y bont at y tŵr Llyn Llanwddyn
Llun 3 - Tolldy ar ben y bont yn Llansanffraid
Llun 4 - "Llwyd Mansion", Croesoswallt

**Atebion Cwis Gwledydd Ewrop**

| | |
|---|---|
| 1. Gwlad Belg | 2. Bwlgaria |
| 3. Tsiecia | 4. Denmarc |
| 5. Estonia | 6. Y Ffindir |
| 7. Ffrainc | 8. Croatia |
| 9. Iwerddon | 10. Yr Eidal |
| 11. Ciprus | 12. Lithwania |
| 13. Latfia | 14. Lwcsembwrg |
| 15. Hwngari | 16. Malta |
| 17. Yr Almaen | 18. Yr Iseldiroedd |
| 19. Gwlad Pŵyl | 20. Portiwgal |
| 21. Awstria | 22. Rwmania |
| 23. Groeg | 24. Slofacia |
| 25. Slofenia | |

# TUDALEN Y PLANT




Mae wedi bod yn anodd aros adref a pheidio â mynd i'r ysgol a gweld ffrindiau. Gobeithio y daw cyfle i fynd i lan y môr rhyw dro cyn hir. Beth am liwio'r llun?

# LLANFYLLIN
## Alwena Francis

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Hilda Evans, Bronygaer sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar ac yn edrych mor heini ag erioed. Gobeithio y bydd siawns i ddathlu yn fuan wedi i'r haint ma ddiflannu!

**Llongyfarchiadau** i Carys Richards,(sydd ar y clawr) sef wyres Glyn a Glenys Lloyd, Bachie Uchaf ar ei llwyddiant yn Eisteddfod T, sef eisteddfod rhithiol yr Urdd a gynhaliwyd ar S4C ddiwedd y mis. Cafodd Carys y wobr gyntaf am lefaru i ddysgwyr blwyddyn 4 i 6. Cafodd ganmoliaeth am ynganu cywir ac am ddefnyddio props pwrpasol i ychwanegu at y dehongliad. Mae Carys yn ferch i Alwena (Bachie gynt) ac Adrian ac yn byw ar fferm ger Trefaldwyn. Mae hi'n mynd i Ysgol Gynradd Trefaldwyn. Dwi'n siŵr bod Taid a Nain, Bachie wrth eu boddau! Da iawn, Carys!

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Glyn Lloyd, Bachie sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cymer ofal, Glyn.
Un arall sydd wedi bod yn bur wael yw Robert Thomas, Pen y Gribin, ac wedi treulio amser yn ysbytai Amwythig a Stoke. Dymuniadau gorau am wellhad buan iddo yntau.
Dwi'n siŵr bod holl ddarllenwyr Yr Ysgub yn gwerthfawrogi'n fawr holl waith gweithwyr y Gwasanaeth iechyd yn fwy nag erioed. Cadwch yn saff a byddwch yn ofalus, bawb.

# LLANSILIN
## Carys Evans

**Siop Gymunedol Llansilin**

Mae Siop Gymunedol Llansilin ar agor bore Mawrth a bore Iau bob wythnos ac yn defnyddio festri y Capel Wesleaidd. Gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y siop ac nid ydynt wedi cau unwaith yn ystod y cyfnod anodd yma. Er mwyn cadw'n saff maent wedi rhoi bwrdd wrth y drws fel cownter ac mae'n rhaid ciwio yn y ffordd oherwydd dim ond un sy'n cael mynd at y cownter ar unwaith. Hefyd maent a gwasanaeth mynd a nwyddau mewn bocsys a'u gadael wrth ddrysau rhai sydd yn ynysu eu hunain. Yn y llun gweler Rowena Thomas yn ymofyn ei neges a Suzanne Kalra yn gweini arni. Diolch i'r holl wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i gynorthwyo yn y gymuned.



*Rowenna Thomas tu allan I'r Siop Gymunedol*

## Llanfyllin yn diolch i'r GIG!

Bu Cyswllt celf yn gweithio gyda chymuned Llanfyllin i greu baner fawr i ddiolch i'r GIG a gweithwyr allweddol. Diolch i'r plant fuodd yn cymryd rhan - Kyon,4, Lexei, 8, Llyr Jones, 8, Celyn Lewis, Alayan Haf Davies, Cerys, Isobel, Llion Martin, 6 a Gwil Martin.

Cafodd y faner ei noddi gan Mark Prust (SPAR), Gary Ellis, (Trefnwyr Angladdau), Dale Furniss Design a Cyswllt Celf. Diolch yn fawr i Robert Conlin a weithiodd yn galed ar y prosiect.




# LLANGEDWYN

Trist oedd clywed bod ein gohebydd lleol Brenda Williams, am ymddeol ar ôl 40 mlynedd.
Ar ran y darllenwyr hoffwn ddiolch iddi am ei gwasanaeth di flino i'r Ysgub ar hyd y blynyddoedd. Mae ein dyled yn fawr i'r criw gwreiddiol yma.
Byddem yn ddiolchgar os y gwyddoch am unrhyw un fyddai'n fodlon bod yn gyswllt yn yr ardal. Yn y cyfamser mae croeso i chwi anfon y newyddion neu storïau yn uniongyrchol i mi yn y post erbyn y dyddiad cau neu drwy e-bost i post@yrysgub.co.uk (Alwenna.ysgrifenyddes)

**Cydymdeimlad**
Fel ardal gyfan yr ydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda Gareth Williams Penrhiw, Penybont Llannerch Emrys a'i chwaer a'i theulu sef Rhian, Edgar, Delyth, Carwyn a Sioned Williams Bronheulog, Llansilin wedi iddynt golli mam a nain annwyl iawn sef Mrs.Nancy Williams ar Fai 6ed a hithau yn 96oed. Unig ferch y diweddar Mr. a Mrs.W.O.Jones y Bryn, Cefnyblodwel ydoedd Nancy ac yr oedd pedwar brawd yn iau sef Gwyn, Raymond, Haydn a Trefor. Wedi dyddiau ysgol bu'n gymorth i'w rhieni ar y fferm nes iddi briodi gyda Mr.Ted Williams Bronheulog. Tra'n amaethu yno daeth adegau trist i'w rhan pan gollwyd y ferch fach Susan yn blentyn ieuanc iawn, a cholli ei gŵr Ted yn sydyn yn 1979. Parhau i ofalu am y fferm gyda Rhian a help amryw un arall fu'r hanes, nes iddi ymddeol i Penrhiw tua 18 mlynedd yn ôl. Gwraig weithgar oedd Nancy, bob amser yn gefnogol i lawer cymdeithas a gweithgaredd yn yr ardal. Roedd yn aelod tra ffyddlon yng Nghapel Hermon Y Briw hyd yn ddiweddar iawn. Yr oedd Nancy yn alluog iawn, yn gogyddes arbennig, ac yn groesawus dros ben. Roedd yn un a gymerai ddiddordeb ym mhawb a phopeth.yn ei bro. Diolchwn am ei bywyd, ac am gael ei chwmpeini am flynyddoedd maith. Bu'r angladd yn y Fynwent yng Nghefnyblodwel ar Fai 22ain o dan ofalaeth ei gweinidog sef Y Parchedig Gwyndaf Richards. Derbyniwyd rhoddion yn garedig er cof am Nancy tuag at Hospis Hope House a Chapel Hermon Y Briw. Coffa da am Mrs.Annie Elizabeth Williams, Nancy.
*Lynda Thomas*

# YR YSGOL UWCHRADD

## Meinir Lewis Jones

<u>Sialens Ysgol Llanfyllin</u>

Rydym wedi cael ein hysbrydoli gan ymdrechion Clwb Rygbi'r Trallwng i godi arian gyda her iechyd rithwir. Fel staff Ysgol Llanfyllin rydym yn cynnal ein rhith-antur ein hunain er mwyn codi pres i'n practis meddygol lleol. Am yr wythnosau nesaf yma, fe fyddwn yn rhedeg, beicio a cherdded taith ffordd rithwir Califfornia i godi arian a fydd yn cefnogi'r system iechyd leol.
Y llwybr yw'r un a ddilynodd disgyblion y 6ed dosbarth yn ystod eu taith arfordir gorllewinol UDA y llynedd ac mae'n cynnwys 2,500 o filltiroedd yn Califfornia, gan gynnwys San Francisco, Parc Cenedlaethol Yosemite, Death Valley, Las Vegas a Los Angeles.
Bydd yr holl arian a godir yn cael ei roi i Ganolfan Feddygol Llanfyllin ar gyfer prynu offer hanfodol. Rydym i gyd wedi bod yn brysur ac yn eger, ac ar hyn o bryd rydym ychydig dros 1,700 milltir mewn i'n taith rithwir o amgylch California, gan basio llawer o'r llefydd enwog ar hyd y ffordd fel Yosemite / Death Valley / Las Vegas / Seion / Bryce Canyon / Tudalen a'r Grand Canyon. Mae gennym ychydig o ffordd i fynd eto nes i ni gyrraedd y llinell derfyn, felly cofiwch gadw'ch rhoddion i ddod, bydd pob darn bach yn helpu Canolfan Feddygol Llanfyllin! Hefyd DIOLCH YN FAWR - DIOLCH i bawb sydd wedi rhoi hyd yn hyn! Diolch bawb!




**<u>Llwyddiant Sian</u>**.

Rydym i gyd yn falch iawn o lwyddiant cyn athrawes Gymraeg Sian Llywelyn. Mae'n dod yn wreiddiol o Benrhyndeudraeth ond yn byw ar hyn o bryd ym Mwlch y Cibau. Mae Sian wedi bod yn dysgu ers diwrnod ei phenblwyddi yn 25 yn 2005. Mi ddechreuodd ei gyrfa dysgu yn Harlech cyn dod i Lanfyllin. Buodd yn dysgu Cymraeg mamiaith ac ail iaith yn ogystal â Saesneg yn Harlech cyn dod yn bennaeth ail iaith yn Llanfyllin. Fe roddodd Sian y gorau i ddysgu oherwydd yn ei barn hi, nid oedd byth ganddi reolaeth lawn dros ei amser rhydd. Mae'n caru sgwennu, ac roedd yn teimlo fod gormod o nofelau a straeon wedi eu cychwyn ond heb eu gorffen ganddi, felly roedd Sian eisiau mynd i'r afael â nhw. Fe fydd y llyfr allan diwedd mis yma ar gael ar gopi caled. Dyma'r nofel gyntaf i oedolion gan Carreg Gwalch i ddod allan yn ddigidol.




*Drychwll gan Siân Llywelyn - y nofel newydd gyntaf i gael ei chyhoeddi'n ddigidol gan y wasg!*

Dyma'r stori yn fras gan Sian heb ddadorchuddio gormod!

"Mae Mabli (newyddiadurwraig 24 oed), sy'n gwneud yn dda iawn yn ei swydd i'r papur newydd y Chronicle, yn darganfod ei hun mewn sefyllfa afreal ynghanol mis Hydref. Mae 3 o'i ffrindiau / cydweithwyr wedi diflannu o fewn pythefnos i'w gilydd. Mi ddiflanon nhw yn yr un lleoliad, sef tŷ teras yn y dref, sy'n wag ers 20 mlynedd. Yn odiach fyth, mi fuodd Mabli yno efo nhw pan ddaru nhw ddiflannu. Tydy ddim yn cofio be ddigwyddodd pan roedd hi efo nhw. Mae cymeriad arall yn y nofel hefyd o'r enw Baltws, sydd yn wahanol. Ond gorchwyl y ddau ohonyn nhw ydy cael Mabli i ddeall a chofio beth ddigwyddodd, ac wrth gwrs, trïo achub y cymeriadau sydd wedi diflannu."

Mae hi'n nofel arswyd, gwyddonias (sci-fi) efo elfen hanesyddol. Cerwch ati i'w phrynu.

**<u>Hwb Gofal plant brys</u>**.

Rydym fel tîm y clwstwr yn dal i weithio yn yr Hwb Argyfwng sydd yn yr Ysgol Gynradd yn Llanfyllin er mwyn cefnogi plant gweithwyr hanfodol yn ogystal â phlant bregus yn ystod y cyfnod anodd yma. Nid yn unig athrawon sydd yno, ond glanhawyr, gofalwyr, staff gweinyddol, cogyddion a chynorthwyr dysgu. Rydym i gyd wedi tynnu at ein gilydd. Mae'r diwrnod yn dechrau am wyth gyda brecwast a chwarae allan ac yna mae'n amser gweithio. Mae'r grŵp o ddisgyblion yn cael eu rhannu, ac mae un grŵp yn gwneud gwaith ar y cyfrifiadur ac mae'r grŵp arall fel arfer yn darllen yn y llyfrgell. Ar ôl cinio, mae set gwahanol o athrawon yn dod i helpu ac yn strwythuro'r pnawn gydag amryw o weithgareddau, gwaith a hwyl. Mae'r Hwb ar agor nes 6 o'r gloch. Mae'n gyfnod anodd iawn i bawb ond rydym fel tîm yn falch iawn o'n cyfraniad ni, ac yn gwerthfawrogi yn fawr cyfraniad y gweithwyr allweddol yn ein cymuned. Mae'r clwstwr i gyd yn gweithio'n galed i wneud yr Hwb lwyddo.

# Cystadleuaeth Cymdeithas Maldwyn 2019

## Llwyddiant Cadi

Dyma'r darn buddugol gan Cadi. Roedd mwy nag un testun yn cael ei gynnig, a "cyfrinach" oedd y testun ddewisodd Cadi. Ysgrifennodd Cadi y darn cyn y Nadolig, ac roedd wir wedi anghofio am y gystadleuaeth, felly roedd cael tystysgrif a siec o £80 drwy'r post yn sypreis neis iawn iddi yr wythnos ddiwethaf!!!

**Cyfrinach**

Doeddwn i ddim yn deall. Dyna'r broblem. Mewn gwirionedd, doedd neb yn deall. Petawn i ond wedi sylweddoli neu gofyn yn gynt, byddwn i wedi gallu helpu pethau; gwneud iddo deimlo'n well neu ei gysuro o bosib?.. Y peth tristaf yw nad oedd neb wedi ceisio deall tan i mi wneud. Roedd pawb wedi (neu eisiau) anghofio'r arwyddion, a'i ysgwyd i ffwrdd fel diwrnod gwael neu hwyliau drwg.

Dwi'n difaru'r ffaith na wnes i rywbeth i helpu'n gynt, gan ein bod ni wedi bod yn ffrindiau gorau mwy neu lai ers y crud. Fel brawd a chwaer yn yr ysgol gynradd... amhosibl oedd ein gwahanu bryd hynny... ac wrth i ni dyfu'n hŷn a dod i'r ysgol uwchradd, arhosodd hi felly. Er bod pobl yn gwneud sylwadau cas fel, "Ych! Ti'n ffrind efo bachgen?!" neu, "Wyt ti'n tom boi ta, neu a'i fo sy'n pwff?", rhywsut, fe arhosodd ein cyfeillgarwch ni'n gryf. Wrth gwrs, mae gen i griw mawr o ffrindiau eraill hefyd, a fo 'run peth, ond roedden ni'n dal i fod mor agos a dwy fanana mewn un clwstwr. Dydy'r un ohonon ni'n wahanol i fechgyn a merched eraill ein hoedran ni- finnau'n gwirioni fy mhen dros golur a ffasiwn, a fo'n gwylio pêl-droed chwech noson o'r wythnos gan wario'r seithfed yn ymarfer gyda chlwb y dref!

Ond ers wythnosau bellach, roedd wedi bod yn ymddwyn yn wahanol. Doedd pethau ddim yn iawn, ac roedd rhyw deimlad annifyr rhyngom ni. Wel, nid rhyngom ni yn unig, ond rhwng Dafydd a phawb mwy neu lai. Am lanast y bu heddiw! Dyma sut yr aeth hi...

Eistedd oeddwn ni yn y dosbarth mathemateg gyda'm ymennydd ymhell o'r hafaliadau cymhleth oedd yn frith ar y bwrdd gwyn. *Pryd wnaiff y ddynes 'ma stopio rwdlan?* meddyliais wrth i'm ymennydd lithro at y diwrnodau diflas blaenorol. Roedd Dafydd wedi bod yn ymddwyn yn wahanol... mor wahanol nes ro'n i'n dechrau amau ai'r un person oedd o! Doedd o heb siarad â mi ers wythnos gyfan bellach, ac roedd hynny yn fy mhoeni fymryn oherwydd roeddem ni'n arfer cerdded adref gyda'n gilydd bob dydd o'r ysgol, gan dderbyn paned neu sgwash a'r gacen ddiweddaraf o'r popty gan Mam. Bydden ni'n rhoi'r byd a'r betws yn ei le wrth eistedd yno, neu wrth fynd fyny i fy llofft i chware gemau cyfrifiadurol. Weithiau bydden ni'n mynd draw i dŷ Dafydd, gyda'i Dad yn ein croesawu gyda'i floedd o "Su' mae Casi? Popeth yn iawn yn yr ysgol?" a'i fam yn ateb gyda "Daf yn bihafio'n iawn yno?", ond prin oedd yr adegau hynny. Wedi meddwl, doeddwn heb fod yng nghartref Dafydd ers cyn yr haf bellach, ond roedd ein tŷ fel ail gartref Dafydd, a fo cystal bob tamed ag unrhyw frawd neu chwaer roeddwn yn cadw gofyn wrth Siôn Corn amdano pan oeddwn yn fach!

*"CASI!"* Deffrwyd mi yn annisgwyl o'm llif meddyliol gan floedd yr athrawes.

"Casi, HELP!" gwaeddodd eto. *Help? I beth ar y ddaear a thu hwnt y byddai Mrs. Williams eisiau fy help i? Mae hi'n gwybod nag oes gen i obaith i ddatrys hafaliadau dwl...*

Trois fy mhen yn ddiog oddi wrth y ffenestr a sylweddoli am beth roedd y gweiddi taer yn dod o'i gennau. Sylweddoliad a'm rewodd yn fy unfan. Sylweddoliad a drodd fy myd -ac fy stumog gydag ef– ben i waered a thu chwith allan. Yn sefyll yno ar ben y ddesg oedd Dafydd, pren mesur yn ei law a golwg gandryll ar ei wyneb. Safodd yno yn rhythu a gweddi ar unrhyw un a geisiai siarad gydag ef. Wedi iddo ddweud wrth tua tri o bobl am gau eu cegau (gan gynnwys Miss) llygadrythodd Mrs. Williams arna i gydag ymbiliad yn ei llais a ddwedodd, "Plîs Casi, gwna rywbeth!". Anadlais yn ddwfn, a throi i wynebu Dafydd yn dalsyth. Doedd gen i ddim cliw beth i'w wneud i helpu ac er fy safiad cryf, roedd ofn wedi fy mychanu. Syllais i'w lygaid a darganfod taw nid dicter yn unig oedd yno. Roedd pyllau o ofn yn ei lygaid; pyllau a oedd yn erfyn am gymorth; pyllau a adlewyrchai bachgen bedair ar ddeg oed a oedd ar goll yn llwyr. Meidrolodd rywbeth y tu mewn i mi, a siaradais yn dawel...

"Dafydd plîs, tyrd i lawr o'r bwrdd. Gad i ni fynd i siarad am funud. Nid ti yw hyn Dafydd. Dwi'n gwybod nad ti sy'n gwneud hyn. Mae'r Dafydd dwi'n ei adnabod yn well na hyn. Tyrd i lawr o'r bwrdd..."

Gwelais ansicrwydd yn ei wyneb am funud. Simsanodd. Syllodd. Tawelodd. Yna dringodd i lawr o'r bwrdd, gan ollwng y pren mesur arno ar ei ffordd, a cherdded allan o'r ystafell heb gydnabod neb. Es ar ei ôl, a'i ddarganfod yn pwyso yn erbyn sil y ffenest yn y coridor tu allan, gyda'i ben yn ei ddwylo. Gallwn ei glywed yn anadlu'n drwm, ond roedd ei gorff mor llonydd â delw.

"Tyrd, eistedda," meddwn yn betrusgar, ond yn addfwyn, "Ti yw fy ffrind gorau. Dyweda wrtha i beth sy'n bod..."

Am ennyd, croesodd y syniad fy meddwl taw efallai i mi wneud rywbeth yn anghywir, neu ei bechu rhyw fodd; ysgwydais hynny i ffwrdd yn gyflym fodd bynnag, gan sylweddoli bod rhywbeth llawer mwy dwys yn digwydd yma. Roedden ni wedi cael ambell i ffrae fach yn y gorffennol, ond wnaeth o erioed ymddwyn fel hyn ynglŷn a ryw anghytuniad bach dibwys rhyngom.

Eisteddodd Dafydd i lawr yn ufudd, heb yngan gair. Es i ato, rhoi braich o amgylch ei ysgwydd ac aros yn dawel ac amyneddgar iddo ymateb neu ddweud rhywbeth. Rhywsut, roeddwn yn teimlo bod y tawelwch a'r amser yn dweud cyfrolau yn fwy na cheisio ei wthio i ddweud rhywbeth. Trodd ei ben tuag ataf, ac roedd beth welais i nesaf yn fy nychryn hyd yn oed yn fwy na beth ddigwyddodd y tu mewn i'r dosbarth. Pistyllai dagrau i lawr ei ruddiau blinedig ac roedd ei wyneb yn wynnach nag ysbryd. Ei lygaid yn ddau lyn o ddicter, dryswch, ac uwch popeth arall... ofn. Roedd ei gorff yn ddiymadferth,

ond crynai ei ddwylo fel petai'n methu delio â'r hyn oedd yn ei rwygo o'r tu mewn. Edrychai fel plentyn di-amddiffyn oedd wedi cael ei arteithio a'i fygu gan rhywbeth oedd yn ei boeni. Roedd Dafydd mewn poen. Yn unig. Ar goll.

Gafaelais ynddo 'n dynn gan ei ddal yn gadarn yn fy mreichiau. Ochneidiais; *o Daf druan!* Arhoson ni felly am amser na fedrai ei gyfri a phan wahanon ni, cymerodd Dafydd anadl ddofn, grynedig, a llifodd y geiriau o'i geg fel afon oedd wedi bod yn aros yn eiddgar i'r argae bygythiol cael ei ddymchwel gan y storm achubol.

"Wel, fel gwyddet ti" anadl ddwfn arall gan Dafydd, "mae pres wedi bod ychydig yn dynn ers i Dad golli ei swydd gyda'r cwmni adeiladau, ac ers i'r tîm dros 40 lawr yn y clwb pêl droed stopio ymarfer oherwydd diffyg aelodau, mae Dad wedi colli'r dau brif beth oedd yn llenwi ei fywyd." Arhosais yn llonydd a thawel wrth wrando ar Dafydd yn torri ei dawelwch a chyfaddef ei boenau. "Dechreuodd yfed yn amlach, a mynd i lawr i'r bar yn y dref yn gyson, er bod Mam wedi bod yn ymbil arno i chwilio am swydd arall a stopio ar y ddiod. Aeth hyn ymlaen am ryw fis neu'i gilydd; Dad yn meddwi a mynd yn fwy blêr, a phoenau Mam yn cynyddu bob dydd. Aeth pethau'n wael rhyngddynt, a daeth Dad adref un noson yn feddw gaib - doedd o prin yn medru sefyll yn iawn heb sôn am feddwl yn glir. Fe gerddodd i mewn i'r gegin am tua pedwar yn y bore, roedd Mam wedi aros ar ei thraed yn poeni o'i chalon amdano. Buodd erioed mor hwyr â hynny o'r blaen. Pan welodd ef, o'r diwedd, gwaeddodd Mam mewn rhwystredigaeth,

*'Be haru ti'n aros allan mor hwyr, yn gwario ein pres prin i gyd ar ddiod?! Rwyt ti'n gwerthu dy fywyd i ffwrdd, peint wrth beint'*

Gwaeddodd Dad rywbeth tebyg yn ôl, ac wrth i'r cloc parhau i dician, aeth y ffrae yn fwy a mwy tanbaid," saib.

Tynnodd anadl grynedig gyda golwg boenus ar ei wyneb, fel petai'n ymdrech anferth i gael y geiriau nesaf allan...

"Yna, fe darodd o Mam," disgynnodd ton arall o ddagrau, ond wnaeth Dafydd ddim stopio, "Cloeais fy hun yn fy ystafell a chrio fy hun i gwsg ar ôl gweld y trawiad yna o'm cuddfan ar ben y grisiau. Pan ddeffrais y bore wedyn, roedd Mam wedi diflannu a Dad wedi agor y caniau. Gallwn weld ei fod yn difaru. Dyna sut mae hi wedi bod ers rhyw pythefnos bellach... dim sôn am Mam, a sefyllfa Dad yn gwaethygu bob dydd. Alla i ddim mynd ymlaen â hyn bellach, dwi eisiau i bethau mynd yn ôl fel oeddynt cynt..."

Stopiodd, fel pe na ganddo'r egni i yngan gair yn rhagor. Llyncais, gan geisio cadw fy nagrau fy hunan yn ôl. Doedd gen i ddim cliw ei fod yn mynd drwy'r fath boendod hunllefus. Gafaelaf ynddo... a dyma lle rydw i rŵan... yn eistedd yn y coridor mathemateg gyda fy ffrind gorau yn fy mreichiau. Beth ar y ddaear wna i wneud? Does gen i ddim syniad sut i'w helpu, er mor daer rydw i eisiau gwneud hynny. Cymeraf anadl, ar fin dweud rhywbeth i geisio'i gysuro. Ond yna, rhewaf...

Yn sefyll ar ben y coridor mi welaf ffigwr cyfarwydd. Ffigwr gyda gwallt trwchus brown, gwallt sy'n unfath gyda'r mwng sydd yn pwyso ar fy ysgwydd yn awr. Mae hi wedi rhewi hefyd, a gallaf weld yr ofn sydd yn ei safiad.

"Daf," dwi'n anadlu, "tro rownd."

Mae'n troi ei ben yn araf. Wrth weld y ddynes yn sefyll yno, mae'n codi, a dechreua'r ddynes gyfarwydd gerdded tuag atom ni'n betrusgar.

"Mam..." llynca ei boer, "Ble wyt ti wedi bod?" Mae golwg amddiffynnol arno i gychwyn, yna cyhuddiad,

"O Daf! Dwi mor sori" mae hi'n llefain, gan dorri i mewn i rediad, gyda'i breichiau ar led. Gafaela yn Dafydd a chofleidia Dafydd hithau yn ôl yn dynn, fel pe na bai unrhyw beth arall yn bodoli.

Safaf yno yn eu gwylio, ac o'r diwedd, dwi'n credu y medraf gredu yn y peth dwi wedi bod eisiau dweud wrth Dafydd ers iddo ddechrau llefain... sef y bydd popeth yn iawn yn y pen draw.

Cadi Glwys Davies

# **Llwyddiant Lisa**

Dyma bortread Lisa Page blwyddyn 9 o Benybontfawr o Great Thunberg mewn paent a phensil. Enillodd y wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Gelf Cymdeithas Maldwyn. Gwych Lis!





**Cerdd Ffarwelio 11 CJ Mai 22, 2020.**

Wel, dyma ni ar ddiwedd y daith

Ddaeth braidd yn sydyn ar ôl amser maith.

Cofid 19 benderfynodd ffawd 11 CJ

A dyma pawb adre'n pendroni be di be.

Pum mlynedd o falu, chwerthin a chrio,

Cwblhau gwaith, adolygu a ffraeo.

Iwan a Gwion yn boen yn y tin

Ac yna Rhys Johnson yn gyrru pawb yn flin!

Carwyn yn cyrraedd ymhell cyn y gloch

Ond Tom P a Rhys T ar ôl naw o'r gloch!

Alex, Corrie, Elin, Jaime- yn dawel yn y cefn

-merched aeddfed a hoffus, sy'n gwybod y drefn.

A'r pleser o groesawu'r trochwyr atom ni:

Tegan ac Ella, Nick a Kai – a dyna ni.

Iwan Roberts ac Ennya fu'n eu gwarchod nhw

Yn dawel, yn ofalus – yn dryw.

Ein criw athletaidd, cryf, di-guro

Jamie, David, Tom Williams, Gruff and co.

Heb anghofio Rhys Thomas, rhedwr o fri,

A K A yr Eugene talentog – credwch chi fi!

Clwb tiktok yn dawnsio'n ddi-stop

A Sara a Ffion mor awyddus am bop!

Fflur, Lowri a Lydia, tair Cymraes i'r carn

A Jasmine yr artist yn dawel ei barn.

Y siaradwyr penigamp, yn mwynhau bob sgwrs

Oedd Ieuan a Gethin - a Llion wrth gwrs!

Ar ddiwedd cyfnod epic ein grwp tiwtor ni

Un peth sy'n siwr – wnai BYTH eich hanghofio chi!







**FFARWELIO**

Roedd ffarwelio'n wahanol iawn i ddisgyblion blwyddyn 11 a 13 eleni gyda dim o'r dathliadau arferol. Dymunodd Dewi Owen y Pennaeth pob lwc i'r disgyblion gan roi'r neges iddyn nhw i fynd allan i'r byd a mwynhau bywyd a chael un antur fawr. Rhan arall o'i neges oedd i'r disgyblion bob amser gofio'u gwreiddiau gyda balchder. Dymunodd Llyr Thomas hefyd bob lwc i'r disgyblion i gyd gan eu hannog i gadw'n iach, i weithio ac i ymlacio ac edrych ar ôl eu hunain. Pwysleisiodd y byddai'r ysgol yno i'w helpu nhw rwan ac yn y dyfodol.

POB LWC I'R HOLL DDISGYBLION SY'N GADAEL YR YSGOL ELENI ODDI WRTH YR YSGUB.

**Cofio 'Dewi Lloran'**

Daeth hir oes a diwedd cyfnod hanes teulu i derfyn pan y fu farw Dewi Evans, Lloran, Llanfihangel ar Fawrth 19 yng nghartref gofal Isle Court, Bicton Heath ger Amwythig. Ganed Dewi yn ail fab i Annie a David Evans (Davie Ellis) ar y 5ed o Ragfyr 1925 yn Lloran sef cartref teulu ei fam a bedyddiwyd ef yng nghapel Llawrycwm yn unol â'i dystysgrif genedigaeth David (Dewi) Ellis Evans ond fel Dewi yr adnabuwyd ef erioed a Dewi bach fyddai ei fam yn ei alw. Cafodd ei fam ddylanwad mawr ar ei fywyd a hithau osododd terfynau hunan ddisgyblaeth a seiliau moeseoldeb gadarn trwy gyfrwng yr aelwyd a'r Ysgol Sul yn Llawrycwm lle y mynychai heb ddewis nac achwyn ynghyd â'i frodyr John, Idris ac Eddie a'i chwiorydd Jinnie ac Eirlys.

Bu bron i Dewi gyfarfod â'r un ffawd â'i chwaer Mair (Annie Mary) a fu farw yn ferch fach blwydd oed blwyddyn a 'chydig cyn ei enedigaeth o. Pan yn blentyn cafodd niwmonia a chofiwn iddo sôn lawer gwaith mai 'portion' ffisig y wraig o Gyfronnydd (nid Doctor swyddogol ond gwraig arbennig a chanddi ddealltwriaeth o wyrthiau planhigion i drin afiechydon) a'i arbedodd o'r un ffawd â'i chwaer. Cofiaf iddo sôn am y cyfnod yma a gafodd argraff mawr ar ei fywyd o ran gwerthfawrogi bregusrwydd a phwysigrwydd bywyd.



Mynychodd Dewi ysgol gynradd Llanfihangel yng Ngwynfa (yr hen safle) - sef siwrne 2 filltir un ffordd ar droed heibio Tynymynydd a'r Fawnog ac allan wrth Gapel Ucha ar ffordd Braich Y Waen cyn llwybro fyny 'Ffordd Newydd' o Bont Ysgadarn i Lanfihangel. Ei atgofion o'r cyfnod fel y disgrifiwyd oedd cerdded mewn esgidiau cryfion a rheini yn fach braidd a'r cinio oedd bara cartref a 'dripping' arno. Roedd ganddo barch mawr tuag at y prifathro sef Mr Shimin a'i wraig a oedd yn athrawes yno a hwythau wedi mentro yn bell o'u cartref genedigol yn Ynys Manaw i addysgu plant 'Llan'.

Yn 14 oed daeth cyfnod ysgol i ben a bu'n gweithio fel gwas (yn ôl yr afer y dyddiau hynny) ar ffermydd lleol yn ardal Llanfihangel yn cynnwys fferm Braich Y Waen. Fe dorrodd y rhyfel ar 1af o Fedi 1939 rhai misoedd cyn ei ben-blwydd yn 14 a chofiaf iddo ddisgrifio ei brofiad o'r cyfnod yma o'i fywyd ac ni allwn ddychmygu'r fath galedi. Gwnaeth anffawd ar feic bach ar ffordd Braich Y Waen pan dorrodd ei goes yn lanc ifanc, ei arbed o ymuno â'r fyddin oherwydd ni chafodd ei dderbyn ar sail meddygol. Dwi'n cofio iddo ddisgrifio ei brofiadau yng nghyfnod y rhyfel a chreu darlun byw o 'Gymdeithas' a diwylliant yr ardal, y cyd dynnu, yr hwyl a'r gwaith caled mewn amser o gyfyngder a'i brofiad ar noson y "blitz' yn Lerpwl a'r awyr fflamgoch i'w weld fel petai'r helbul a'r difrod yn ymddangos llawer agosach nag yr oedd. Yn ei arddegau byddai Dewi a'i frawd Idris yn hel Cwningod efo 'Fferets' a rhwydi ac yn gwerthu'r cwningod a oedd yn frith yn yr ardal amser y rhyfel. Roedd rhaid bod yn weithgar ac yn ddyfeisgar i 'dalu ffordd' yn y cyfnod yma ac i'r perwyl yma wedi diwedd y rhyfel aeth ati i brynu 'machine' gneifio defaid a bu yntau a'i frawd John ac Idris ynghyd â Lloyd Evans Efail Lwydiarth yn cneifio miloedd o ddefaid pob blwyddyn. Roedd yn cneifio defaid ei hun tan yr oedd ymhell yn ei wythdegau ac roedd y weithred yma yn adlewyrchu ei gyfansoddiad cryf a iach.

Wedi marwolaeth ei fam yn 1958 fe ail briododd ei dad Davie Ellis a symud i Dynycoed i gartref ei wraig Gwladys a hyn yn creu y cyfle i sicrhau ei barhad a'i berthynas â'i gartref genedigol trwy ei brynu gan ei dad. Daeth cwmni gwraig arbennig arall yng nghysgod colled ei fam pan briododd â Mair Gwilliam (Croesoswallt) ar 6ed Hydref 1962. Ynghyd â ffarmio (ond hwnnw ddim yn ddigonol i gynnal incwm angenrheidiol a theulu) bu Dewi yn gweithio am 35 mlynedd fel 'dyn ffordd' a llawer o'r blynyddoedd hyn fel 'fforman' cyn ei ymddeoliad yn 1990. Yn ystod hir wasanaeth byddai yn cadw ein ffyrdd yn ddiogel wrth yrru'r lori 'gritter' ac roedd yn fforman ar waith lledu ffordd 'Boncyn Celyn' Llanwddyn yng nghanol y 1970au.

Dyn ei filltir sgwâr oedd Dewi ond yn ei ddyddiau cynnar byddai yn mynd ar ei fotorbeic gyda'i frodyr a chogie'r ardal i Silverstone i wylio rasys motor-beic a byddai hefyd yn mynd i Ynys Manaw i wylio'r *'Isle of Man' TT*. Parhaodd y diddordeb yma mewn motor-beics hyd ei oes a hefyd rasys *formula one* ac roedd y teledu, y radio a'i gŵn yn gwmni ac yn gysur mawr iddo yn enwedig ar ôl colli ei briod Mair yn 2008.

Roedd yn ysbrydoliaeth i'w deulu a oedd yn ganolbwynt i'w ymdrechion a'i weithredoedd meddylgar a hael. Person anhunanol, disgybledig ac unionsyth oedd Dewi. Bu'n aelod parhaol a ffyddlon o gapel M.C Llawrycwm ac roedd ei lais tenor swynol yn bresenoldeb anghymharol ar y Sul. Roedd ei ffydd Gristnogol a amlygai ei hun trwy air, gweithred a chân yn gadarn er gwaethaf dirywiad ei iechyd.

Roedd yn werinwr, yn Gymro balch ac roedd yn ffyddlon i'w egwyddorion a'i ddiddordebau megis y capel, y Côr (Côr Brynfedwen Llanwddyn yn y dyddiau cynnar), Côr Clawdd Offa a Chôr Dyffryn Tanat) a'r blygain neu'r 'blygien' fel byddai yn cyfeirio ato. Roedd ei ymroddiad a'i bresenoldeb parhaol (tan y rhai blynyddoedd diwethaf) ym mhlygeiniau trwy'r ardal yn cynnwys y 'Blygien Fawr' Llan (yr olaf yn 2018) yn adlewyrchu ei gydnabyddiaeth o bwysigrwydd cefnogi a chynnal traddodiadau a diwylliant yr ardal. Braint o'r mwyaf oedd sefyll ysgwydd wrth ysgwydd efo'r gŵr arbennig hwn y dyn a'r tenor mwyn - Tad, ffrind a chyd blygeiniwr.

Roedd yn byw ei fywyd yn syml fel y dymunai am 92 o flynyddoedd yn ei gartref anedig tan y daeth amgylchiadau fel nad oedd hynny yn bosib. Dyn cadarn, cymwynasgar a charedig a chanddo ddyfnder a hiwmor. Nid oedd yn dyheu am foethusrwydd bywyd na sylw, parch na chydnabyddiaeth ond hawliai hynny beth bynnag ar sail ei rinwedd a'i gymeriad hoffus. Byddai yn byw ei fywyd yn unol â geiriau un o'i hoff emynau (Nid wy'n gofyn bywyd moethus) a'r geiriau sydd mor briodol 'gofyn rwyf am galon hapus, calon honest, calon lân'. Tybiwn i ei fod wedi llwyddo.

Er cydnabod ei hir oes, gwagle anghymharol sydd i'n bywyd hebddo ond serch hynny mae gennym fywyd cyfan o brofiadau ac atgofion melys dros ben. Cydnabyddwn mai rhodd oedd ei fywyd

a braint o'r mwyaf inni oedd bod yn rhan ohono a'i nabod fel Dewi Lloran - Dad, Taid a brawd annwyl.
Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent gyhoeddus Llanfyllin ar yr 2il o Ebrill a chafwyd gwasanaeth breifat (oherwydd y sefyllfa bresennol) yn cynnwys ei hoff emynau ar lan y bedd. Bwriedir cynnal achlysur o gofnodi ei fywyd yn y dyfodol trwy un cyfrwng neu'i gilydd. Diolchwn fel teulu am y cardiau o gydymdeimlad a'r rhoddion caredig er bydd Dementia UK.

Arwel, Bethan a Gareth (Lloran gynt)

**Englyn Er Cof Am Dewi**

Hir wasanaeth fel amaethwr - brodor

Lloran a phlygeiniwr,

Ei rinwedd oedd gwerinwr,

Rhiant annwyl, caredig ŵr.

*(Cymerau)*

**Y Cynllun Gerddi Cenedlaethol yn cefnogi Nyrsys**

Ym 1926, cafodd Miss Elsie Wagg, yr oedd ganddi frawd llwyddiannus iawn yn y byd arian, y syniad o agor gerddi preifat fel bod y cyhoedd yn talu am eu gweld er mwyn codi arian ar gyfer Sefydliad Nyrsio'r Frenhines. Felly dechreuodd y Cynllun Gerddi Cenedlaethol ac agorwyd dros 600 o erddi yn y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys Erddig a Phlas Heaton yng Ngogledd Cymru.




Mae'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol wedi codi arian i elusennau iechyd a nyrsio byth ers hynny, gan godi dros £58 miliwn. Croesawyd ymwelwyr i dros 3,500 o erddi yng Nghymru a Lloegr yn 2019 a, diolch i haelioni perchnogion gerddi, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr, rhoddwyd £3 miliwn i elusennau fel Cymorth Canser Macmillan, Marie Curie a Hospice UK, yn ogystal â Sefydliad Nyrsio'r Frenhines.

Eleni yw'r flwyddyn gyntaf yn holl hanes yr elusen, dros 93 mlynedd, i bob un o'r gerddi fod ar gau. Arhosodd llawer o erddi ar agor hyd yn oed yn ystod yr Ail Ryfel Byd a phandemig y ffliw moch yn 2009-2010. Er hynny, parhau i weithio'n galed mae gwirfoddolwyr y Cynllun Gerddi Cenedlaethol, gan godi arian i gefnogi nyrsys. Bu rhai perchnogion gerddi yn rhannu eu gerddi ar-lein gyda theithiau rhithwir tra bu eraill yn gwerthu planhigion ger eu gatiau. Ewch at ein gwefan, www.ngs.org.uk a mwynhau ymweliad rhithwir a dangos eich gwerthfawrogiad trwy roi rhodd.

Gwirfoddolwyr sydd wrth graidd ein sefydliad ac ni allem fodoli hebddyn nhw. Tîm bach sydd gennym yng Ngogledd Powys, ac maen nhw wrthi'n annog a chefnogi perchnogion i agor eu gerddi er budd y Cynllun Gerddi Cenedlaethol. Byddwn yn helpu hyrwyddo'r gerddi agored drwy'r wasg, ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn rheoli'r arian a godir yn y sir. Pe hoffech ymuno â 'r tîm hwn, cysylltwch â Susan Paynton, ein Trefnydd Sir ar 01686 650531. Byddai'n wych cael siaradwr Cymraeg rhugl ar ein tîm!

Helen Anthony
Swyddog Cyhoeddusrwydd
Cynllun Gerddi Cenedlaethol Gogledd Powys
Ffôn: 01686 941795 / 07986 061051
E-bost: helen.anthony@ngs.org.uk



2019 Gardd Bachie Uchaf C Pears






**AWGRYM GARDDIO**

Cafodd llythyr gan Gwyneth Jackson Jones ei gyhoeddi mewn cylchgrawn garddio'n ddiweddar. Dweud oedd Gwyneth nad oes angen gwario ar focsys arbennig ar gyfer eich eginblanhigion. Mae bocsys gwin pren yn gwneud yn wych fel y gwelwch chi uchod.

# ADOLYGIAD

### gan Elin Llwyd Morgan




Un o fy hoff nofelau Cymraeg – ac un sydd heb gael cydnabyddiaeth haeddiannol, er iddi ennill Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2000 – ydi *Cur y Nos* gan yr awdur toreithiog o Flaenau Ffestiniog, Geraint V. Jones.

Yn y gobaith o gael *thriller* seicolegol yn yr un cywair felly, dyma droi at ei nofel ddiweddaraf, *Elena*, sy'n cychwyn ag ymweliad Côr y Garn o dref ddychmygol Tregarnedd â Mynwent Artillery Wood yng Ngwlad Belg. Ond tra bod y rhan fwyaf o'r aelodau yn 'sefyllian o gwmpas bedd Bardd y Gadair Ddu', chwilio am fedd dau filwr o'r dref uchod y mae eu cyfeilyddes, Elin Puw.

Un sy'n barod iawn i'w helpu ydi'r saer golygus Dewi Rhys, ac mae eu hegin garwriaeth yn destun cryn drafod ymhlith gweddill y côr, yn enwedig gan bod Elin – er yn ddynes ifanc ddeniadol – yn cael ei hystyried yn dipyn o hen ferch a fu'n gaeth i ofalu am ei nain (a ddisgrifir fel 'Dynes od! Dynes chwerw!').

Yn sgil marwolaeth honno fodd bynnag, mae Elin yn rhydd i ganlyn, ac efo cymorth Dewi a hen wreigan leol sydd â doniau clirweledol (*clairvoyant* – fel Elin ei hun, mae'n ymddangos) mae'n mynd ati i durio i hanes ei theulu a cheisio datrys ambell ddirgelwch ysgeler o'r gorffennol.

Braidd yn ddryslyd ac ailadroddus ar adegau ydi'r cyfeiriadau at y sawl Elin/Elena a Henry/Harri yn y teulu, ac er mor nodweddiadol raenus a rhwydd yr iaith a'r mynegiant, ddaru'r nofel hon ddim cydio ynof yn yr un modd â *Cur y Nos* (er bod honno hefyd yn ymwneud â hel achau a hen bechodau).

Teimlwn bod y gwamalu rhwng y cariadon yn syrffedus ar brydiau, a bod cyfle wedi'i golli i wneud mwy gyda chymeriad Glesni, cyn-wraig annymunol Dewi. A thra 'mod i'n derbyn yr elfen oruwchnaturiol am yr hyn ydyw, mae yna edefyn arall o'r plot sy'n ymestyn hygrededd y darllenydd i'r eithaf.

Er hynny, mae dawn storïol a disgrifiadol yr awdur yn ddiamheuol, ac wrth i'r darnau i gyd ddisgyn i'w lle, daw'r nofel i ben, fel y mae'n dechrau, gyda'r ddau filwr dan bridd tramor. O, a thro bach annisgwyl yn ei chynffon…

# LLANWDDYN

### Janet Roberts

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Lauren a Matt ar enedigaeth eu hail fab Elis, brawd bach i Dylan.

**Diolch**

Diolch yn fawr iawn i Margaret a'i merch am chwarae'r Last Post cyn y ddwy funud o dawelwch am 11 o'r gloch ar fore Cofio Diwrnod VE, dydd Gwener, Mai 8fed.





**Canolfan Cymunedol Llanwddyn**

Braf ydi gallu cyhoeddi bod gwaith ar do Canolfan Cymunedol Llanwddyn wedi gorffen.

Mae'r sgaffaldiau a'r ffens hyll oedd wedi bod o amgylch y ganolfan ers ambell flwyddyn wedi mynd. Mae'r Pwyllgor yn aros am y cyfle i fynd ati i dacluso'r gerddi a'r ardal tu allan ac agor y drysau unwaith eto. Mae ein diolch yn enfawr i Garfield Weston am eu Cefnogaeth Ariannol haul tuag at y gwaith.



Ydech chi'n cofio'r panig nad oedd papur tŷ bach i'w gael?

Ysgwn i a ddaliwyd y lleidr diddorol yma?

Os ydech chi'n ei hadnabod cysylltwch â'r heddlu – mae'n beryglus!

## Mae Harri'n fachgen lwcus

Mae Harri'n fachgen lwcus
Mae ganddo blant mor ciwt,
A gwraig ddel, fendigedig.
Mae'n mynd i'r gwaith mewn siwt.

Mae Harri'n fachgen lwcus,
Mae'n byw mewn tŷ mawr braf.
Mae'n gweithio'n y brifddinas,
Cael gwylie yn yr haf.

Ond diwedd ddaeth i'r teithio.
Y gwylie? Breuddwyd yw.
Yr hen goronafeirws cas
Amharodd ar ei fyw.

Dim galifantio i Gaerdydd
I'w fflat gysurus glyd,
Rhaid aros yma 'm Maldwyn
A dysgu'r plant o hyd!

Un diwrnod dwl, digyffro
Mi neidiodd o i'r car,
"Mi af am dro" dywedodd
"Mi fentraf lawr i'r Spar".

Ond wedi gadael Llwyn-y-garth,
A throi i lawr y lôn,
Be glywodd Harri'n canu
Wrth ei ochr, ond y ffôn.

Mae'n well i mi ei ateb
Meddyliodd Harri'n syn
Hon fydd *y million dollar deal*
Dwi di methu hyd yn hyn.

A stopio'r car wnaeth Harri
O flaen tŷ braf Pauline.
Ac yno yn ddisymwth
Sioc gafodd – ar ei***.

Y nefoedd a agorodd
Duw chwythodd nerthol wynt!
Sŵn erchyll, tra arswydus-
Anadlodd Harri'n gynt.

"Be oedd o? Be ddigwyddodd?
A ydw i dal yn fyw?"
Yn betrus camodd allan
A'i wyneb yn ddi-liw.

Roedd coeden anferth, enfawr
Yn gorwedd ar ei gar,
Modfeddi o lle steddai gynt!
Treiglai chwys i lawr ei war.

Bob dydd yn ddeddfol, diolch wna
Am ddianc rhag y pren.
Mae Harri'n fachgen lwcus -
Dyna ni. Diolch byth. Amen. (Cymdoges)



*Y car yng nghanol y brigau a'r gangen yng nghanol y car*



## Gwasanaeth newydd i oroeswyr canser

Mae Gofal Canser Tenovus wedi lansio gwasanaeth newydd 'Tele-Ffrindiau', sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr, er mwyn ymladd unigrwydd ymhlith cleifion canser yn ystod argyfwng y coronafirws trwy gyfrwng y Gymraeg..

"Mae'n well gyda'r mwyafrif o bobl sy â'r Gymraeg fel iaith gyntaf gyfathrebu drwy gyfrwng yr iaith maen nhw'n dewis. Fel siaradwr Cymraeg, mae'n beth gwych fy mod i'n gallu cynnig hyn, ac efallai fydd pobl yn teimlo'n fwy hapus ac ymlaciedig wrth wybod ei bod yn gallu cael y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg," meddai Jenny Gregory un o'r gwirfoddolwyr.

Mae Gofal Canser Tenovus yn gobeithio bydd y gwasanaeth yn helpu gymaint o bobl â sy'n bosib sy'n byw â chanser, ac yn annog unrhyw un sy'n teimlo y byddent yn cael budd i gofrestru drwy'r wefan.



## Yr Enfys

Pan oeddwn wedi'r gawod

Yn cerdded yn yr ardd

I'r cwmwl fe ddaeth bwa

Oedd saith o liwiau hardd.

Wrth weled lliwiau'r enfys

Fel bwa uwch fy mhen

Fe gofiais dy gyfamod

Fe ddaw'r gofidiau i ben

Saith lliw i ddangos gobaith

Ar amser tywyll blin

Saith lliw i godi'r galon

Daw haul ar ôl y drin.

Mona Hughes



# YR YSGUB YN CEFNOGI DPJ

Cyflwynwyd siec o £200 i Wyn Jenkins, cynrychiolydd rhanbarthol Sefydliad DPJ - sef canran o'r elw a wnaed o werthiant calendr Yr Ysgub 2020.
Mae'r sefydliad yn codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, ac yn cynnig sesiynau cynghori rhad ac am ddim i'r sector amaeth a'r cymunedau gwledig.
Mae eu gwaith wedi ennill sawl gwobr gan gynnwys y 'Pride of Britain' a Countryfile y BBC




*Wyn Jenkins gyda'r siec a chopi o'r Ysgub*



*Wyn gyda'r siec ac Alwenna ein hysgrifenyddes gyda'r calendr yn cadw pellter cymdeithasol*



# *LLUN O'R GORFFENNOL*



*Ydech chi'n cofio Eisteddfod heulog Maldwyn yn 2003?Tybed a fyddai'r criw yma yr un mor heini heddiw?*

**Gemau Plant**

Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn – mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol – d'oes dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach.
Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yn y Geiriadur.
Un o'r hen ffefrynnau yw **chwarae cwato** neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch? Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: **micymgudd**, **chwarae whic whiw**, **cwat a chwiw**, **cŵn cadno**, **chwiw mig**, **sbei**, **chwarae mig**, **licaloi**, neu, yn Saesneg, 'hide-and-seek'.
A fu rhai ohonoch erioed yn **chwarae London**? Neu efallai mai **cicston**, **chwarae ecsi**, **poitsh** neu **sgotsh** oedd eich enw am 'hopscotch'.
Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel **catio**, **chware'r gath**, **chwarae'r gath ddwy gynffon**, **chwarae pren a chati**, a **pegi**. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?
Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel **chwarae donci mul**, **chwarae ffwdít**, **llam llyffant**, **naid y ffroga**, **chwarae moch duon**, **neidio caseg felen**, neu **neidio mulod**. Beth oedd eich enw chi am y gêm?
Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g. fel chwarae **pêl ddu.** Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html
Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*

## Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant

Dysgu o gartref

Hoffwn fel staff ddiolch i rieni ein hysgol am eu gwaith arbennig gyda'r plant dros yr wythnosau heriol hyn. Mae dysgu o gartref yn sicr wedi bod yn sialens i rieni ac athrawon, ond fel athrawes a rhiant, does dim byd gwell na gweld y plant yn iach, yn hapus ac yn cyflawni a dysgu sgiliau diri. Ceir gweithgareddau eang gan gynnwys:

- Cyflawni gweithgareddau a osodwyd gan yr athro/athrawes ar Microsoft Teams
- Cymryd rhan mewn sesiynau dysgu ar y wê.
- Plant gweithwyr allweddol yn mynd i'r Hwb yn Llanfyllin a chwrdd â phobl / plant newydd.
- Sesiynau Minecraft gyda'r plant yn creu Sŵ Llan ac Ynys Sanctaidd (llawn adeiladau a symbolau crefyddol o amgylch y byd).
- Sesiynau gwyddoniaeth ar y wê.
- Helpu adref ar y fferm – wyna, tocio, cneifio, ffidio……
- Helpu yn y tŷ – coginio, llnau, golchi llestri a dillad…..
- Helpu yn yr ardd neu tu allan – plannu llysiau / adeiladu waliau….
- Gwneud crefftau di-ri
- Cadw'n heini, trwy gerdded, beicio…….

Yn sicr, rydym yn lwcus iawn o'r ardal a chymdeithas rydym yn byw ynddi. Er nad yw dysgu o adref yn fêl i gyd, a dwi'n siŵr y bydd yr rhan fwyaf mewn da bryd yn falch o gael mynd yn ôl i'r ysgol, yn sicr mae'r plant wedi dysgu pethau hollol wahanol gan dreulio amser gwerthfawr gyda'u teuluoedd. Diolch yn fawr iawn.

Her 2.6

Mae aelodau staff a nifer helaeth o blant yr ysgol wedi cymryd rhan yn yr Her 2.6. Rhaid oedd cyflawni rhywbeth i'w wneud gyda'r rhifau 2 a 6 ac am amrywiaeth a gaed. Beicio a cherdded 2.6km - 26milltir! Creu gwesty Minecraft yn defnyddio 26 bloc neu chreu 26 model Lego! Neidio a dringo ar sleid a thrampolîn 26 o weithiau. Cicio, penio a thaflu pêl, plannu hadau, casglu sbwriel, mynd ar siglen, dawnsio bol, gwnïo, neidio, roli poli, cadw'n heini! Hyd yn oed helpu dal 26 oen a'u drenshio! A hyn i gyd er mwyn hel arian ar gyfer elusennau gwerthfawr y GIG! Diolch yn fawr am eich cyfraniadau. Hyd yn hyn, rydym wedi hel dros £400. Gwych!!

Dyma enghraifft o Rysait sut i Oroesi Hunanynysu

Gan Finley Evans



Rysait ar gyfer goroesi wrth hunanynysu

Byddwch angen:

- 65g o fwyd iach
- 1 tunnell o bensiliau lliw a phapur
- 3 cawod o gariad
- 2 llond llwy fwrdd o deulu
- 800ml o ddŵr iachus
- 1000g o hwyl
- Pinsiaid o Joe Wicks
- 4 llond bocs o fownsio
- 5 peint o nosweithiau mŵfi
- 1 llond llwy de o gwsg
- 6 llond cwpan o goginio

Dull:

- Cymysgwch y cynhwysion mewn jwg am o leiaf 180 eiliad/3 munud.
- Tywalltwch y cynhwysion i mewn i bowlen a churwch gyda llwy bren am 24 eiliad.
- Bwytewch y cymysgedd a byddwch yn barod i oroesi hunanynysu am 3 mis.

# CODI CALON




Un peth sydd wedi bod yn codi calon rhai ohonom ni yn Nglyn Ceiriog wrth i ni fynd am ein tro cerdded beunyddiol yn ystod y meudwyo mawr ydi'r cerrig paentiedig amrywiol sydd i'w gweld ar hyd y lle, yn enwedig ar hyd yr Hen Ffordd i lawr i Ddolywern. Yn wir, mae fel math o helfa drysor, oherwydd unwaith i chi weld un, mae'n codi awydd arnoch i gadw llygad am fwy ohonyn nhw wedyn, a gwirioni wrth ddod ar eu traws yn llechu mewn bonion coed, ar ben waliau, wrth droed meinciau ac ati. Mae'n ymddangos mae plant y pentre (a'u rhieni hefyd efallai!) sydd wedi bod wrthi'n peintio'r cerrig ac yn eu gosod hwnt ac yma, a bob hyn a hyn bydd rhai yn ffeirio llefydd, a cherrig newydd yn ymddangos hefyd. Yn ogystal â bod yn symbolau bach o obaith ar adeg digon ansicr, mae'n ffordd wych o gadw plant yn ddiddan ac yn brysur, gan loywi eu sgiliau celf yr un pryd! Mae detholiad o'r cerrig bach hynod hyn yma a thraw o fewn y papur. Allwch chi eu darganfod?: *Elin Llwyd Morgan*

**Ysgol Llanarmon D C ac Ysgol Cynddelw**

Mae hi'n amser anodd i ni gyd yn y Dyffryn. Mae'r staff i gyd yn methu'r disgyblion ac mae'r ysgolion yn lefydd tawel dros ben. Rydym i gyd yn ddiolchgar o wybod fod pawb yn ddiogel.

Mae staff y Ffederasiwn wedi bod yn brysur dros ben yn paratoi gwaith ar lein i'r disgyblion ac yn ymateb i ddisgyblion ar lein. Maent hefyd wedi bod yn gwneud cyrsiau ar lein yn ogystal â thacluso'r ysgolion. Mae staff ysgol Llanarmon wedi bod yn brysur yn paentio'r ffensys ac yn trwsio hyn a'r llall. Mae staff Ysgol Cynddelw wedi bod yn sortio.

Mae Miss Iona Richards, un o staff yr ysgol, wedi rhannu rysáit cyfrinachol am sut i wneud y fflapjacs mwyaf blasus! Edrychwch ar ein tudalen Facebook Ceiriog Valley Federation am y rysáit a nifer o storïau, gweithgareddau a chaneuon i ddiddanu'r plant.

Diolch yn arbennig i Emily Barre (blwyddyn 6) a'r teulu sydd wedi bod yn edrych ar ôl gardd Ysgol Cynddelw.

